Adroddiad Blynyddol

# Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

2020 - 2021

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr ..... 8
3. Sut Mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau? ..... 18
4. Hyrwyddo a Gwella Lles y Rhai a Helpwn ..... 31

Safon Ansawdd 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni. ..... 31

Safon Ansawdd 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol. ..... 39

Safon Ansawdd 3: Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed..41

Safon Ansawdd 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas. ..... 47

Safon Ansawdd 5: Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach. ..... 49

Safon Ansawdd 6: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion ..... 53

5. Sut Rydym yn Gwneud yr Hyn a Wnawn ..... 59
6. Cael at Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol ..... 68

# 1. Cyflwyniad

Fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro, mae’n bleser gennyf roi gwybod sut rydym wedi sicrhau gwelliannau i les pobl sydd wedi defnyddio ein gwasanaethau yn ystod 2020/21, wrth reoli hefyd y camau ymateb yn ystod pandemig COVID. Hoffwn hefyd achub cyfle i ddiolch i bawb sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth, a hefyd i'n holl bartneriaid ac aelodau o'r gymuned sydd wedi ymateb cystal yn ystod yr ymateb i'r pandemig. Diolch yn ddiffuant hefyd i bobl sy'n cael gofal a chymorth ac i ofalwyr sy'n gweithio am dâl ac yn ddi-dâl ledled Sir Benfro; maent wedi dangos hyblygrwydd, gwydnwch, dealltwriaeth a diwydrwydd wrth ddod at ei gilydd ar adeg a fu’n heriol iawn i bobl sy'n agored i niwed dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn rhan o'm swydd, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am berfformiad ein hadran Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn yr adroddiad hwn rwy'n dangos y gwelliannau a'r heriau sylweddol a wynebwyd gennym yn ystod 2020/21. Rwyf hefyd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn yma, 2021/22 a fydd, gobeithio, yn flwyddyn o adfer a gobaith.

## 1.1. Ein Heriau

Yn wahanol i unrhyw flwyddyn arall, mae pandemig COVID wedi newid y ffordd y byddem fel arfer yn darparu ac yn comisiynu ystod eang o'n gwasanaethau. Bu gofyn i lawer o'n staff weithio gartref er bod gwasanaethau brys hanfodol wedi’u cynnal yn ein swyddfa ganolog i roi cyfle i staff drafod gwaith achos sensitif, cael cymorth a chyfarwyddyd rheoli a bod ar gael i ymateb i argyfwng cyn gynted â phosibl.

Er gwaethaf argyfwng y pandemig, buom yn wynebu pwysau ariannol sylweddol o hyd fel mewn blynyddoedd blaenorol. Yn 2020/21 roedd angen i ni gyflenwi yn erbyn rhaglen lleihau costau o ryw £2 filiwn ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae ein gwaith atal a rheoli galw ynghyd â llawer o fentrau eraill yn parhau i'n cefnogi i leihau gwastraff a gweithredu ffyrdd mwy effeithlon o weithio wrth i ni ymdrechu i wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.

Parhawyd i wynebu heriau'r gweithlu o ran recriwtio staff gofal a chymorth rheng flaen a gweithwyr cymdeithasol profiadol. Yn ystod y flwyddyn, dechreuwyd cymryd mesurau parhad busnes gan gynnwys nodi cyflogeion y gellid eu hadleoli i rôl ofalu fel y gallem gynnig cymorth i'n darparwyr a chynnal gofal a chymorth ar draws y gymuned. Erbyn diwedd y flwyddyn, yn anffodus, roedd gennym nifer o swyddi gwaith cymdeithasol gwag yn y Gwasanaethau Plant. Rydym yn dal i ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu drwy weithredu ein Cynllun Datblygu'r Gweithlu. Nod y cynllun yw sicrhau bod gennym weithlu effeithiol, gwydn sydd â’r medrau priodol, sy'n gallu ymateb i'r heriau sylweddol sydd o'n blaenau. Parhawn hefyd i ganolbwyntio ar 'dyfu ein Gweithwyr Cymdeithasol ein hunain' drwy noddi eu llwybr at gymhwyster.

## 1.2. Ein Ffyrdd o Weithio

Ynghyd â gweddill y Cyngor rydym yn gweithio yn unol â’r egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyfeirir at y rhain fel y pum ffordd o weithio sy'n ein galluogi i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy a chefnogi pobl i helpu eu hunain. Mae defnyddio'r egwyddorion yn sicrhau bod gennym safbwynt 'Hirdymor' wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, ein bod yn canolbwyntio ar 'Atal' ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu 'hintegreiddio' yn llawn â chymunedau ac asiantaethau eraill. Rydym yn 'Cydweithio' â'n defnyddwyr gwasanaeth a'n partneriaid ac yn eu 'Cynnwys' mewn datblygiadau gwasanaeth. Trafodaf drwy’r adroddiad hwn sut y buom yn gweithredu gweithgareddau atal drwy barhau i ddatblygu cymunedau dyfeisgar a gwydn a grymuso pobl i gynnal eu hannibyniaeth.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos â’r rhannau eraill o’r Cyngor ac asiantaethau eraill i ddarparu ystod o wasanaethau i bobl y mae angen ein cymorth a'n cefnogaeth arnynt. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos yn rhanbarth Gorllewin Cymru, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid y Trydydd Sector. Gyda'n partneriaid rydym wedi datblygu cynllun ardal rhanbarthol sy'n nodi bwriadau strategol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Roedd yr holl gysylltiadau hyn yn ein galluogi i ymateb yn strategol ac yn weithredol i argyfwng COVID mewn dull trefnus ac ystyriol.

Strwythurwyd ein hymateb i'r pandemig drwy weithio gyda'n holl bartneriaid ledled Cymru a'r rhanbarth. Sefydlwyd rhythm brwydr o gyfarfodydd rheolaidd. Mynychais gyfarfodydd wythnosol â Llywodraeth Cymru, y Grŵp Gweithredol Integredig (Partneriaid Iechyd a Rhanbarthol o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol), y Drefn Reoli Aur (Cyngor Sir Penfro) ac Uned Gydlynu Ymateb Tactegol Gofal Cymdeithasol a Thai (Cydweithwyr Iechyd a'r Trydydd Sector). Mynychodd fy nghydweithwyr gyfarfodydd wythnosol gweithredol arbennig ledled Cymru a'r Rhanbarth: cyfarfodydd Efydd Iechyd, Diogelu Rhanbarthol, Cyfathrebu Corfforaethol, cyfarfodydd Gweithredol Cymru Gyfan a chyfarfodydd gweithredol lleol. Am ein bod wedi hen sefydlu perthynas â'n partneriaid, bu modd inni ymateb yn gyflym i'r argyfwng drwy greu canolfan gydgysylltu gymunedol a chanolfan cyflenwi darparwyr. Creodd y ddau wasanaeth hyn un pwynt cyswllt gan ddefnyddio ein technoleg ffôn a'n galluogodd i gyfeirio galwadau at y sawl mwyaf priodol gan fonitro'r galw i sicrhau bod gennym ddigon o bobl i ddelio ag ymholiadau'n gyflym.

Mae ein model o ddarparu gwasanaethau yn ymwneud ag adeiladu ar gryfderau ein pobl a chyfeirir ato fel y dull Arwyddion Diogelwch. Wedi'i ddatblygu'n draddodiadol o fewn y Gwasanaethau Plant, buom yn gweithredu'r dull Arwyddion Diogelwch ar draws y Gyfarwyddiaeth. Rydym wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r dull gweithredu yn y Gwasanaethau Plant a byddwn yn parhau i’w weithredu ymhlith oedolion i sicrhau ei fod yn parhau i wella arfer a chanlyniadau i'n defnyddwyr gwasanaeth.

## 1.3. Ein Hamcanion

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n timau, asiantaethau eraill a gwasanaethau eraill y cyngor megis Iechyd, yr Heddlu, Hamdden, Tai ac Addysg i sicrhau bod amcanion llesiant y Cyngor yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Ar gyfer 2020/21 y rhain oedd:

- **Addysg:** Bod Sir Benfro yn lle gwych i ddysgu, byw a thyfu.
- **Gofal Cymdeithasol:** Byddwn yn gwneud beth bynnag a allwn i gefnogi pobl i fyw'r bywyd gorau y gallant gan ganolbwyntio ar atal a sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel.
- **Economaidd**: Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Sir Benfro fel lle gwych i ymweld ag ef, byw a gweithio ynddo.
- **Tai:** Galluogi cartrefi fforddiadwy, teilwng ac addasadwy i bawb mewn lleoliadau cynaliadwy.
- Byddwn yn hyrwyddo balchder yn Sir Benfro gan geisio gwella ei henw da fel lle ar gyfer ansawdd amgylcheddol eithriadol
- **Trawsnewid:** Technoleg; Diwylliant a Pherthynas.

Yn ystod 2018/19 cyhoeddodd Aelodau'r Cyngor eu Rhaglen Weinyddu, sef datganiad gwleidyddol gan Gabinet y Cyngor ar ei flaenoriaethau hyd at 2022. O ran Gofal Cymdeithasol, nododd y Cabinet y byddai ffocws parhaus ar atal, diogelu a thechnoleg. Roeddent hefyd yn cymeradwyo'r dull Arwyddion Diogelwch sy'n cael ei weithredu ar draws yr adran gyfan. Bydd y rhaglen Weinyddu yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yn ystod 2021/22.

Mae popeth a wnawn ym maes Gofal Cymdeithasol yn seiliedig ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn darparu chwe Safon Ansawdd i ni. Y gwaith a wnaethom tuag at liniaru effeithiau pandemig Covid gan barhau i gyflenwi yn erbyn y safonau hyn sy’n ffurfio prif gorff yr adroddiad hwn.

Y Safonau Ansawdd yw:

- Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a’u lles emosiynol.
- Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.
- Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.
- Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.
- Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Rydym wedi gweithredu amrywiaeth o brosiectau i gefnogi'r gwaith o gyrraedd y safonau hyn, ac rwyf wedi tynnu sylw at rai o'r meysydd gwaith hyn isod:

- Rydym wedi parhau i ddatblygu a thyfu'r tîm gofal cartref mewnol, sydd bellach â chyfran 10% o'r farchnad. Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd recriwtio drwy gydol yr argyfwng i ddenu pobl i'r sector gofal. Roedd hwn yn uchelgais allweddol a nodwyd yn rhaglen weinyddu'r Aelodau.
- Gwnaethom sefydlu tîm Gofal Integredig sy'n gweithio i gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain gymaint â phosibl drwy ddarparu ystod o gymorth iechyd a gofal. Aeth y tîm hwn yn fyw ar ddechrau pandemig COVID ym mis Ebrill 2020.
- Rydym wedi agor cyfleuster ailalluogi gofal canolraddol ag 8 gwely yn Noc Penfro i gefnogi pobl pan fyddant yn barod i'w rhyddhau o'r ysbyty ond nid oes ganddynt becyn gofal gartref. Mae'r cyfleuster hwn yn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty a oedd yn allweddol i sicrhau bod ysbytai'n cynnal capasiti ar gyfer pobl yr oedd angen gofal acíwt arnynt yn ystod yr argyfwng.
- Yn y Gwasanaethau Plant, canolbwyntiwyd ar recriwtio a chadw mwy o ofalwyr maeth a bod yn rhieni corfforaethol cryf. Buom yn datblygu ymhellach ddull tair blynedd o leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.
- Rydym wedi parhau i weithio ar wasanaeth addysg a chymorth coleg preswyl gyda Choleg Sir Benfro i alluogi pobl ag anableddau dysgu i aros yn Sir Benfro i gwblhau eu hastudiaethau a datblygu cyfleoedd byw'n annibynnol parhaus.
- Rydym wedi parhau i weithredu uned rhieni a babanod. Bydd yr uned yn galluogi rhieni a babanod i aros yn agosach at eu cartrefi wrth i'w hanghenion gael eu diwallu.

## 1.4. Ein Defnyddwyr Gwasanaeth a'n Partneriaid

Rydym wedi ymgynghori ag amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Bydd yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae gan Adran 3 ystod eang o sylwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth o ran gwasanaethau a phrosiectau rydym wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys gwasanaethau newydd a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig.

## 1.5. Ein Harolygwyr

Cwblhaodd ein Harolygwyr rheoleiddio, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiad Gwerthuso Perfformiad yn ystod hydref 2020. Diben yr arolygiadau oedd rhoi sicrwydd ynghylch sut oedd pobl yn cael eu diogelu a sut oedd llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Buont yn adolygu'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae crynodeb cynhwysfawr o ganfyddiadau ein Harolygwyr ar gael yn Adran 2.

## 1.6. Ein Cyflawniadau

Yn ystod 2020/21 nid oedd gennym y gallu i ymgeisio am Wobrau Cenedlaethol a chafodd llawer eu hatal oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, rydym wedi cyflwyno nifer o geisiadau am y gwobrau a gynhelir yn 2021 sy'n dangos y gwaith a wnaethom i hyrwyddo lles yn ystod yr argyfwng.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio yn yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r partneriaid sy'n ein cefnogi am yr ymrwymiad enfawr y maent wedi'i ddangos i'n defnyddwyr gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn anodd iawn hon.

Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cynhyrchu ffilm fer bwerus fel teyrnged i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Prif nodwedd y ffilm wefreiddiol ac atmosfferig hon yw cerdd gan y gweithiwr gofal cartref o Sir Fynwy, Rowenna Gane.

GWYLIWCH: https://www.youtube.com/watch?v=jRDjk7Nsx28

Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gan bobl efallai am yr adroddiad hwn fel y gallwn wella'r ffordd yr ydym yn disgrifio'r hyn a wnawn i gefnogi pobl â'r hyn sy'n bwysig iddynt.

**Jonathan Griffiths**
**Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**

# 2. Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

Yn yr adran hon rwy'n rhoi trosolwg o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2020/21 cyflwynodd Llywodraeth Cymru god ymarfer newydd mewn perthynas â pherfformiad a gwelliant gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Nid yw'r mesurau traddodiadol a gyhoeddwyd yn flaenorol yn Adroddiad y Cyfarwyddwr ar gael ar gyfer 2020/21. Felly, rwyf wedi cynnwys rhai o'r mesurau newydd hyn i ddarparu rhywfaint o wybodaeth am ein perfformiad. Rwyf hefyd wedi cynnwys rhai mesurau yr oeddem yn eu monitro'n wythnosol drwy gydol argyfwng Covid er mwyn sicrhau ein bod yn perfformio hyd eithaf ein gallu. Roedd adolygiad rheolaidd o ddata gan ein tîm ymateb tactegol yn ein galluogi i gymryd camau lliniaru i leihau effeithiau'r pandemig ar ein defnyddwyr gwasanaeth. Buom yn gweithio'n arbennig o galed gyda phartneriaid o bob rhan o Sir Benfro i gynnal y llif cleifion i mewn ac allan o ofal ysbyty.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru hefyd i ni roi set ddata wythnosol iddynt fel y gallent fonitro'r galw am wasanaethau a phwysau'r gweithlu yn ofalus. Roedd y data wythnosol hwn yn eu galluogi i olrhain perfformiad ledled Cymru yn ystod yr argyfwng.

## 2.1 Perfformiad Gofal Oedolion 2020/21

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o berfformiad gofal oedolion yn ystod 2020/21. Cymerwyd rhywfaint o'r wybodaeth am berfformiad isod o'n ffurflen ddata i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21. Hon yw’r flwyddyn gyntaf o adrodd gwirfoddol ac rydym wrthi'n gwella systemau adrodd er mwyn inni gael mwy o ddata ar gael i Adroddiad Cyfarwyddwyr y flwyddyn nesaf pan fydd adrodd yn orfodol o dan y cod ymarfer newydd.

Y llynedd, dywedasom y byddem yn parhau i ddatblygu ein model ataliol i reoli'r galw am ein gwasanaethau. Buom yn gweithio gyda'r sector Gwirfoddol ac ystod eang o fentrau cymunedol i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain. Roedd rôl yr Hyb Cymunedol yn ystod y pandemig yn amhrisiadwy. Roedd yn cynnig un pwynt cyswllt i breswylwyr yr oedd angen cyngor a chymorth arnynt, ond roedd hefyd yn cefnogi bron i 6,000 o bobl a oedd wedi cael gwybod am warchod eu hunain.

Mae'r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid gorfforaethol, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Croesffyrdd, Cysylltwyr Cymunedol a llawer o sefydliadau eraill yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Roedd yr Hyb Cymunedol yn gallu dwyn ynghyd wybodaeth o'r holl bwyntiau cyswllt hyn ynghyd â gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol i ddatrys problemau ar gyfer anghenion penodol pobl wrth ddelio â sefyllfa'r pandemig.

Bu cyfanswm y cysylltiadau ffôn ac e-bost gofal cymdeithasol a gafwyd gan ein Canolfan Gyswllt gorfforaethol yn gostwng yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf o 43,219 yn 2016/17 i 25,218 yn 2020/21. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol ac mae'n debygol bod rhywfaint ohono'n gysylltiedig â phandemig Covid ac atal rhai gwasanaethau megis cyfleoedd dydd. Yn ystod yr un cyfnod, ymdriniodd yr Hyb Cymunedol â dros 8,000 o alwadau gyda dros 50% o'r galwadau hynny'n ymwneud â'r cynllun dosbarthu parseli bwyd i bobl a oedd yn gwarchod eu hunain.

Nodwn hefyd fod nifer yr atgyfeiriadau newydd i wasanaethau oedolion a gofnodwyd gan y ganolfan gyswllt wedi gostwng o 6,603 yn 2016/17 i 3,708 yn 2020/21. Dengys y siart isod fod gostyngiad amlwg yn nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Ebrill, Mai, Mehefin a Gorffennaf. Roedd atgyfeiriadau ychydig yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol ym mis Medi a mis Rhagfyr, ac mae'r cynnydd sydyn ym mis Ionawr yn cyfateb i dueddiadau atgyfeirio arferol.




Mae ein timau gofal cymdeithasol hefyd yn cwblhau llai o asesiadau nag a wnaethant mewn blynyddoedd blaenorol. Eleni, cwblhawyd 900 o asesiadau newydd gennym ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn, ond yn 2016/17 cwblhawyd 3,193 o asesiadau. Credwn fod dechrau'r pandemig a'r cyfnod clo cyntaf wedi cael effaith sylweddol ar nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth.

O'r 900 o asesiadau oedolion newydd a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, daeth 741 i'r casgliad mai dim ond drwy gynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion oedolion.

O dan ein strategaeth atal, rydym wedi gallu rheoli'r galw demograffig cynyddol am ofal cymdeithasol. Dengys y tabl isod nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn. Dengys ffigurau 2020/21 effaith COVID gyda theuluoedd yn dewis gofalu am aelodau eu teulu eu hunain mewn rhai achosion er mwyn lleihau'r risg o ddal y feirws. Cafwyd effaith sylweddol ar bobl a fyddai fel arfer yn manteisio ar gyfleoedd dydd gan fod llawer o ganolfannau ar gau i gydymffurfio â Rheoliadau Covid. Gohiriwyd darpariaeth seibiant hefyd a gellir gweld effaith hyn yn glir yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth o 372 o bobl yn 2019/20 i 35 yn 2020/21.

| Nifer yr oedolion yn defnyddio gwasanaethau amrywiol drwy gydol y flwyddyn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
| Gofal Cartref | 1,530 | 1,326 | 1,118 | 1,128 | 1,027 |
| Cyfleoedd Dydd | 771 | 695 | 675 | 630 | 273 |
| Gofal Dydd â Chymorth Cymunedol | 57 | 57 | 57 | 50 | 9 |
| Llety â Chymorth | 161 | 178 | 221 | 292 | 284 |
| Seibiant | 237 | 328 | 236 | 372 | 35 |
| Gofal Preswyl | 641 | 767 | 812 | 902 | 776 |
| Nyrsio | 95 | 90 | 92 | 185 | 159 |
| **Cyfanswm** | **3,492** | **3,441** | **3,211** | **3,559** | **2,563** |

Cyfanswm yr oedolion â chynllun gofal a chymorth ar waith ar 31 Mawrth 2021 oedd 2,136.

Er y dengys y data ein bod wedi gallu rheoli'r galw o ran nifer y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, dengys dangosyddion eraill fod achosion yn dod yn fwy cymhleth. Er enghraifft, er bod gennym lai o bobl yn cael gofal preswyl parhaol ond mwy o bobl yn cael gofal nyrsio, mae nifer blynyddol y nosweithiau gwely i bawb mewn gofal preswyl wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall o 235,038 yn 2018/19 i 263,984 yn 2020/21. Dyma fwy na 12% o gynnydd mewn tair blynedd.

Dengys y tabl isod gyfanswm y nosweithiau gwely ar gyfer gofal preswyl a ddarparwyd gan ddarparwyr a gomisiynwyd dros y tair blynedd diwethaf.

| Nifer y Nosweithiau Gwely a Gomisiynwyd y flwyddyn | | | |
|---|---|---|---|
| **Nosweithiau Gwely a Gomisiynwyd** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
| Nyrsio Anableddau Dysgu | 365 | 366 | 447 |
| Preswyl Anableddau Dysgu | 34,905 | 36,710 | 39,090 |
| Nyrsio Iechyd Meddwl | 2,220 | 2,349 | 1,754 |
| Preswyl Iechyd Meddwl | 19,480 | 21,113 | 22,477 |
| Nyrsio Pobl Hŷn | 29,757 | 38,049 | 39,384 |

| Nifer y Nosweithiau Gwely a Gomisiynwyd y flwyddyn | | | |
|---|---|---|---|
| **Nosweithiau Gwely a Gomisiynwyd** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
| Preswyl i Bobl Hŷn | 137,637 | 143,557 | 147,304 |
| Nyrsio Anabledd Corfforol | 364 | 184 | 395 |
| Preswyl Anabledd Corfforol | 3,685 | 3,307 | 3,468 |
| **Prif gyfanswm** | **228,413** | **245,635** | **254,319** |

Mae'r ffigurau'n dangos y bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael gofal preswyl gyda chymorth nyrsio gan gefnogi'r ddamcaniaeth bod achosion yn dod yn fwy cymhleth.

Weithiau ni ellir diwallu anghenion pobl gyda'n pecynnau gofal preswyl safonol. Efallai y bydd angen cyfleusterau neu gymorth ychwanegol arnynt. Rydym yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu pecynnau gofal wedi'u teilwra'n arbennig ar eu cyfer. Cyfeirir at y pecynnau gofal hyn fel rhai pwrpasol. Pecynnau gofal preswyl pwrpasol yw rhwng 34% a 36% o'r holl becynnau gofal preswyl. Mae nifer y nosweithiau gwely pwrpasol wedi codi bron i 13% dros y tair blynedd diwethaf ond mae cyfran y pecynnau pwrpasol mewn perthynas â phecynnau safonol wedi aros yn gyson.

O ran pecynnau gofal safonol, mae nifer y nosweithiau gwely a gomisiynwyd wedi codi 13% yn gyson â'r cynnydd mewn pecynnau pwrpasol.

Mae'r cynnydd canrannol mwyaf mewn nosweithiau gwely yn gysylltiedig ag arosiadau dros dro. Nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yn ofal seibiant ond gwelyau sy'n cael eu comisiynu dros dro am amrywiaeth o resymau e.e. gwelyau ar gyfer ailalluogi, asesiadau, gofal canolraddol i gefnogi pobl i gael eu rhyddhau o welyau ysbyty acíwt neu i bobl sy'n aros am becynnau gofal cartref. Cyfran y nosweithiau gwely dros dro i gyfanswm nosweithiau gwely oedd 3.5% yn ystod 2018/19 a 2019/20. Roedd y gyfran hon wedi cynyddu i 6.7% yn 2020/21 gan nodi mwy o ddefnydd o welyau dros dro mewn perthynas â gwelyau parhaol. Mae nifer y nosweithiau gwely ar gyfer gwelyau dros dro wedi codi 93% dros y tair blynedd diwethaf o 8,241 yn 2018/19 i 17,793 yn 2020/21. Gall rhywfaint o'r cynnydd hwn fod yn gysylltiedig ag argaeledd niferoedd addas o'r gweithlu i ddarparu gofal cartref.

### 2.1.1 Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

Nid yw'r dangosydd oedi wrth drosglwyddo gofal bellach yn rhan o waith monitro perfformiad Llywodraeth Cymru. Yn ystod y pandemig, nodwyd nifer y bobl sy'n aros yn yr ysbyty am becyn gofal neu breswyl yn ddyddiol gyda'n partneriaid Iechyd. Roedd ein trafodaethau tactegol yn canolbwyntio ar sicrhau y gallai pobl symud ymlaen gyda'r cymorth yr oedd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2021 roedd pedwar o bobl yn aros am ofal cartref mewn gwely ysbyty acíwt a phump yn aros am becyn ailalluogi. Caiff y dangosyddion hyn eu monitro'n ddyddiol a'n nod yw lleihau nifer y bobl sy'n aros mewn gwelyau acíwt mewn ysbytai drwy:

- gefnogi ein darparwyr gofal, yn enwedig yn eu hymateb i bandemig COVID;
- annog datblygiad busnesau bach neu unig fasnachwyr y cyfeirir atynt fel micro-fentrau i ddarparu gofal;
- tyfu ein gwasanaeth gofal cartref ein hunain a reolir gan y cyngor a fydd yn rhoi'r hyblygrwydd i ni ymateb i'r bobl hynny sydd â'r anghenion mwyaf mewn modd amserol;
- agor cyfleuster gofal canolraddol 8 gwely Martello House;
- ymgorffori'r tîm gofal canolraddol sy'n gallu darparu gwasanaeth ymateb cyflym i atal pobl rhag dod i'r ysbyty a chefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn brydlon pan fo'n briodol;
- sicrhau bod y cymorth cymunedol mwyaf posibl ar gael drwy ddefnyddio rolau'r Cysylltwr Cymunedol a hyrwyddo teleofal a chyfathrebu rhagweithiol drwy wasanaeth Lles Delta

### 2.1.2 Ailalluogi

Yn ystod 2018/19 roeddem yn ymwybodol y bu gostyngiad yng nghanran y bobl a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac a oedd heb becyn gofal chwe mis yn ddiweddarach o 78% yn 2016/17 i 59% yn 2017/18. Yn ystod 2019/20, trosglwyddwyd y gwasanaeth ailalluogi yn ôl i gael ei weithredu gan y Cyngor er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad hwn, a gwellodd y perfformiad i 65%. Gwellwyd y gwasanaeth gyda Therapyddion Galwedigaethol ychwanegol yn cael eu cyflogi i gefnogi a galluogi pobl. Yn ogystal, yn rhan o ddatblygu'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, agorwyd cyfleuster ailalluogi ag wyth gwely yn Martello House, yn ardal Doc Penfro.

Yn ystod 2020/21, cyflenwyd 152 o becynnau ailalluogi gyda 123 yn lliniaru'r angen am gymorth yn y dyfodol. Mae hyn yn cyfateb i 81% sy'n welliant sylweddol ar yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac sy’n dangos y cyfle am annibyniaeth y mae hyn yn ei sicrhau ym mywydau beunyddiol pobl.

### 2.1.3 Diogelu Oedolion

O ran nifer yr adroddiadau a gafwyd yn ymwneud ag oedolion yr amheuwyd eu bod mewn perygl, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y blynyddoedd blaenorol o 1095 yn 2018/19 i 1,611 yn 2019/20. Yn ystod 2020/21 cawsom 1,173 o adroddiadau yn ymwneud ag oedolion yr amheuwyd eu bod mewn perygl, sy'n ostyngiad sylweddol ers y flwyddyn flaenorol, a hynny efallai o ganlyniad i'r pandemig gyda llai o adrodd a gweleded o ran pobl sy'n agored i niwed.

Daeth mwyafrif yr adroddiadau gan wasanaethau darparwyr (510) ac yna Iechyd (195), yr Awdurdod Lleol (179) a'r Heddlu (137). Nid yw pob un o'r adroddiadau hyn yn mynd ymlaen i ymholiad. Yn 2020/21, ymdriniwyd mewn gwirionedd â 738 o achosion lle'r oedd angen gwneud ymholiadau. Cyfanswm yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith i gael y gamdriniaeth

honedig oedd 465. Cafwyd cyfanswm o 216 o ymholiadau a nododd y dylid cymryd camau ychwanegol. Ar 31 Mawrth 2021 roedd 25 o gynlluniau amddiffyn gofal a chymorth gweithredol ar waith i amddiffyn oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Daeth 13 o ymchwiliadau troseddol i ben yn ystod y flwyddyn a dau ymchwiliad nad oeddent yn droseddol.

### 2.1.4 Codi Tâl am Ofal Oedolion

Mae'r swm y mae oedolyn yn ei dalu am ei ofal yn dibynnu ar ei amgylchiadau ariannol. Mae gan bob oedolyn yr hawl i gymryd rhan mewn asesiad ariannol fel y gellir cyfrifo ei gyfraniad yn gywir yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cyfanswm yr oedolion a dalodd y tâl wythnosol mwyaf tuag at gost gofal a chymorth yn ystod 2020/21 oedd 408. Cyfanswm yr oedolion y codwyd tâl arnynt am gymorth a gofal cartref oedd 758, a chodwyd ar 684 am ofal preswyl.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld lefelau dyled cynyddol. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar gyfer dyledion preswyl sydd wedi'u sicrhau yn erbyn eiddo oherwydd oedi wrth werthu eiddo. Rydym yn gweithio ar ein prosesau adennill dyledion gofal cymdeithasol i gefnogi pobl i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am eu cyfraniadau a aseswyd yn ariannol.

### 2.1.5 Gofalwyr Oedolion

Cyfanswm y cysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr oedolion neu weithwyr proffesiynol yn cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan oedd 158 ar gyfer 2020/21. O'r 158 o gysylltiadau, arweiniodd 92 at ddarparu cyngor neu gymorth. Cynhaliwyd cyfanswm o 130 o asesiadau anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn gyda 73 o asesiadau yn arwain at gynllun gofal a chymorth i ddiwallu anghenion gofalwyr. Ar 31 Mawrth 2021 roedd 141 o oedolion gofalwyr gyda chynllun cymorth ar waith.

## 2.2 Adrodd ar Berfformiad Plant 2020/21

Cymerwyd yr wybodaeth am berfformiad isod o'n ffurflen ddata i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21. Hon yw’r flwyddyn gyntaf o adrodd gwirfoddol ac rydym wrthi'n gwella systemau adrodd er mwyn inni gael mwy o ddata ar gael i Adroddiad Cyfarwyddwr y flwyddyn nesaf pan fydd adrodd yn orfodol.

Yn ystod 2020/21 cawsom 3,012 o gysylltiadau ynghylch materion yn ymwneud â phlant. Daeth y rhan fwyaf o'r cysylltiadau a gawsom gan yr Heddlu (1,711), daeth 416 o gysylltiadau o Iechyd a 260 o wasanaethau Addysg.

Yn dilyn adolygiad o bob cyswllt, mae'r tîm yn penderfynu pryd mae angen asesiad. Cyfanswm yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn oedd 1,709. O'r rheini, 1,671 oedd nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol. Mae hyn yn cyfateb i

ychydig o dan 98% o'r asesiadau yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni statudol.  Mae hwn yn welliant ers 2019/20 pan gyflawnwyd 92%.
Yn dilyn asesiad mae nifer o ganlyniadau:

- daeth 791 o asesiadau i'r casgliad mai dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellir diwallu anghenion plentyn
- daeth 790 o asesiadau i'r casgliad bod modd diwallu anghenion plentyn drwy ddulliau eraill
- daeth 128 o asesiadau i'r casgliad nad oes gan blentyn unrhyw anghenion cymwys

Ar 31 Mawrth 2021 roedd gan 507 o blant o Sir Benfro gynllun gofal a chymorth ar waith.

Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu'n gyson dros y pedair blynedd diwethaf: ar 31 Mawrth 2017 roedd 36 o blant, roedd 71 ym mis Mawrth 2019 a 95 yn 2021. Caiff y plant eu tynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.  Yn ystod 2020/21, cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr oedd 123.

Mae nifer y Plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod hefyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf o 127 ym mis Mawrth 2017 i 183 ym mis Mawrth 2020 a 222 ym mis Mawrth 2021. Mae'r niferoedd cynyddol yn rhoi pwysau sylweddol ar ein timau gofal plant.  Yn ystod 2020/21, gwnaethom barhau i weithio tuag at dargedau lleihau niferoedd Plant sy'n derbyn gofal fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru.  Y flwyddyn nesaf, ein nod yw lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal drwy weithredu ein Strategaeth Lleihau.

Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt wedi'u gosod gyda theulu, rhieni neu ffrindiau oedd 154 ym mis Mawrth 2021 sy'n cyfateb i 69%; mae hyn yn sylweddol is na phum mlynedd yn ôl pan oedd yn 85%.  Mae cyfanswm o 7 o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu gosod y tu allan i Gymru i sicrhau y cânt y gofal a'r cymorth mwyaf priodol. Nifer y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd i'w cartref yn ystod 20/21 oedd 20.

### 2.2.1 Adroddiad Perfformiad Gofalwyr Ifanc 2020/21

Cafodd y gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol i ofalwyr ifanc 22 o gysylltiadau yn ystod 2020/21, gyda phob un yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Cynhaliwyd cyfanswm o 18 o asesiadau anghenion gofalwyr ifanc yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at bob un o'r 18 gofalwr ifanc yn cael cynllun gofal a chymorth i ddiwallu eu hanghenion.  Ar 31 Mawrth 2021 roedd 142 o ofalwyr ifanc yn Sir Benfro â chynllun cymorth ar waith.

## 2.3 Arolygiadau Rheoleiddio

Ym mis Mawrth 2020, ataliodd AGC ei rhaglen arolygu mewn ymateb i bandemig Covid-19 a'r gofyniad i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig ym mis Medi 2020 i roi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae lles yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Ystyriodd AGC ddiogelwch gwasanaethau, diogelwch a lles pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau, a diogelwch a lles pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio. Cwblhawyd hefyd ei hadolygiad thematig cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd.

Roeddent yn canolbwyntio eu prif lwybrau ymholi o fewn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac roedd crynodeb o'u barn a'u canfyddiadau yn cydredeg â'r rhain: amlinellir isod Pobl - Llais a Rheolaeth, Atal, Lles, Partneriaethau ac Integreiddio.

### 2.3.1 Lles

Nododd AGC y "*gall pobl Sir Benfro fod yn sicr bod eu diogelwch a'u lles yn cael eu hyrwyddo. Roedd atgyfeiriadau ac arferion diogelu yn cael eu rheoli yn unol â gofynion statudol ac mewn modd priodol ac amserol.*" Gwnaethant nodi rhai bylchau mewn ymweliadau statudol a gynhaliwyd gan weithwyr cymdeithasol, felly byddwn yn adolygu sut rydym yn monitro ac yn mynd i'r afael â'r maes ymarfer penodol hwn.

Yn ystod y pandemig, nodwyd bod yr awdurdod lleol wedi ceisio hyrwyddo lles pobl sy'n agored i niwed drwy greu cyfleoedd i bobl gyflawni canlyniadau cadarnhaol a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Nodwyd enghreifftiau lle'r oedd yr awdurdod lleol, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, yn cefnogi lles oedolion ifanc yn ystod amgylchiadau newidiol. Roedd y cyfweliadau a gynhaliwyd ganddynt â theuluoedd yn tynnu sylw'n bennaf at berthynas waith gadarnhaol â gweithwyr cymdeithasol.

Canfu AGC fod diogelwch a lles plant anabl yn cael sylw mewn pryd. Canfuwyd bod adolygiadau amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn unol ag amserlenni. Nodwyd bod gan Weithwyr Cymdeithasol ddealltwriaeth dda o'r bobl yr oeddent yn gweithio gyda nhw a bod tystiolaeth o weithwyr yn gofyn am farn rhanddeiliaid.

O ran lles cyflogeion, canfu'r arolygwyr gofnodion rheolaidd o gyfarfodydd goruchwylio gweithwyr a bod system archwilio cymheiriaid ar waith i fonitro diogelwch a lles. Nodwyd hefyd fod ffocws clir ar recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu.

### 2.3.2 Pobl

Nododd AGC fod barn pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt yn ganolog yn y rhan fwyaf o'r ffeiliau a adolygwyd ganddynt. Mae asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn dangos yn bennaf yr hyn sy'n bwysig i bobl a'r canlyniadau yr oedd pobl am eu cyflawni. Fodd bynnag, yn y gwasanaethau i oedolion, gwelwyd amrywiad o ran ansawdd a phrydlondeb adolygiadau. Am nad oedd llawer o bobl yn cael adolygiad wedi'i drefnu, nodwyd bod y cyfle i fynd i'r afael ag anghenion newidiol pobl yn cael ei golli.

Mae uwch reolwyr yn cydnabod bod angen gwella hyn a bydd yn adolygu arferion proffesiynol ac yn cynnal adnodd staffio addas i godi safonau yn y maes hwn yn ystod 2021/22.

Nododd AGC fod yr awdurdod lleol yn ystyried hawliau plant Sir Benfro i gael cynnig y cyfle i dderbyn eiriolaeth. Roedd yr adolygiad o ffeiliau yn dangos y cynnig o eiriolaeth i blant â phrofiad o ofal. Dywedodd ein darparwr eiriolaeth plant, TGP Cymru, wrthynt y cafwyd dros 200 o atgyfeiriadau gan 100 o bobl ifanc yn ystod cyfnod clo COVID-19, a’r rheini’n bennaf mewn perthynas â phlant â phrofiad o ofal. Mynegwyd safbwyntiau cadarnhaol gan y rhai a oedd yn gadael gofal mewn perthynas â'r cymorth a roddwyd drwy eu cynorthwywyr personol.

Yn ystod 2019/20, cafodd y tîm plant anabl ei integreiddio o fewn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol a thai. Nododd yr arolygwyr fod aelodau'r tîm yn gadarnhaol am y newid hwn, gan fynegi manteision sylweddol gweithio gyda thimau eraill o fewn y gyfarwyddiaeth i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig, gwella canlyniadau diogelwch a lles i bobl. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn gweithio gyda mwy na 100 o blant ac mae bron i 40 yn cael taliadau uniongyrchol. Roedd y rhieni y siaradwyd â hwy yn sôn yn gadarnhaol fod taliadau uniongyrchol wedi rhoi cyfle iddynt ddatblygu gofal a chymorth pwrpasol. Fodd bynnag, mae heriau o ran argaeledd cynorthwywyr personol.

Cyfeiriodd AGC at y dull cynhwysol sydd gan y Gyfarwyddiaeth o ran cynnwys pobl wrth gynllunio gwasanaethau. Cyfeiriwyd at y Strategaeth Anabledd Dysgu a'r Siarter Anabledd Dysgu a ddatblygwyd mewn partneriaeth â phobl anabl sy'n dysgu. Mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi pobl anabl sy'n dysgu fel hyrwyddwyr anabledd dysgu. Mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) yn cynnal un o'r hyrwyddwyr i ganolbwyntio ar weithgareddau a gwasanaethau ar gyfer pobl anabl sy'n dysgu yn y trydydd sector.

### 2.3.3 Atal

Canfu'r arolygwyr fod y bobl y siaradwyd â hwy yn gadarnhaol ynghylch dull atal yr awdurdod lleol. Helpodd ein seilwaith a'n perthynas waith bresennol i ddatblygu'r ymateb i ddiwallu anghenion llesiant pobl yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r Hyb Cymunedol yn gydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) a sefydliadau'r trydydd sector; un pwynt mynediad i ymateb i ymholiadau am les pobl. Datblygodd dros 90 o grwpiau cymunedol newydd yn gyflym mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig, a PAVS yn chwarae rôl

gydlynu allweddol. Ymhlith yr enghreifftiau cadarnhaol eraill a ganfu’r arolygiaeth oedd rôl weithredol ac integredig Cysylltwyr Cymunedol yn cysylltu pobl ag adnoddau cymunedol. Dywed AGC fod gan ein tîm Cyswllt Cyntaf rôl ataliol bwysig drwy ymateb yn brydlon i bryderon am newidiadau yn lles pobl; cyfeirio at sefydliadau cefnogi a gweithio'n agos gyda sefydliadau'r trydydd sector fel Hafal Croesffyrdd a'r Groes Goch. Cyfeiriwyd yn gadarnhaol hefyd at ein dull gofal canolraddol newydd.

O ran y gwasanaethau i blant, nodwyd bod seibiant a gwyliau byr i blant anabl yn faes i'w ddatblygu, a bod angen i'r awdurdod lleol wella'r ddarpariaeth hon. Bydd hwn yn faes gwaith allweddol ar gyfer 2021/22.

Gwelsant gryfder mewn trefniadau partneriaeth rhwng gwasanaethau statudol ac ataliol. Gwelwyd enghreifftiau da o ddefnyddio'r Tîm o amgylch y Teulu a gwaith allgymorth ieuenctid i gefnogi pobl ifanc. Yn ystod Haf 2020, roeddent yn cydnabod bod ffocws sylweddol ar drefnu gweithgareddau haf, gan ymgorffori gweithredu ar lwgu yn ystod y gwyliau a chefnogi plant a allai fod yn agored i niwed yn ogystal â sicrhau bod plant yn cadw’n ddiogel yn ystod y pandemig hwn.

### 2.3.4 Partneriaethau

Canfu'r arolygwyr fod y graddau y mae pobl yn bartneriaid cyfartal wrth gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth yn amrywio. Nodwyd bod rheolwyr, gweithwyr cymdeithasol a phartneriaid yn cadw ffocws cryf ar sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu cefnogi i aros gyda'u teulu a /neu gael profiad o sefydlogrwydd cyn gynted â phosibl.

Rhoddodd rhai staff gwaith cymdeithasol wybod iddynt am fylchau yn argaeledd gwasanaethau wrth fynd i'r afael ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant.

Canfu'r arolygwyr fod ymatebion gan gynrychiolwyr o sefydliadau partner yn cadarnhau bod y dull amlasiantaeth yn gryf, gydag uwch reolwyr yn weladwy ac yn cyfrannu at drefniadau partneriaeth fel y Bwrdd Gofalwyr a'r byrddau Anabledd Dysgu a Phobl Hŷn. Dywedodd pobl wrth AGC fod yr awdurdod lleol yn barod i dderbyn newidiadau ac yn hapus i ystyried arferion arloesol.

Canfuwyd bod tîm y Swyddog Adolygu Annibynnol yn gweithio'n effeithiol gyda thimau gwaith cymdeithasol. Roedd hyn yn arwydd bod y tîm adolygu yn darparu cydbwysedd priodol rhwng her a chymorth. Mae ansawdd cofnodion adolygiadau plant sy'n derbyn gofal o safon dda, yn rhoi eglurder o ran gwybodaeth ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

### 2.3.5 Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2021-2022

Bydd y cynnydd mewn perthynas â’r meysydd a nodwyd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad yn cael ei fonitro bob chwarter gan Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth. Bydd tystiolaeth o welliant yn cael ei chyflwyno i AGC yn ystod eu cyfarfodydd â Phenaethiaid Gwasanaeth yn 2021/22.

# 3. Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau?

Ar draws y gyfarwyddiaeth buom yn ymgysylltu â'n defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'u teuluoedd er mwyn deall yn well sut y buont yn ymdopi yn ystod y pandemig. Er bod gwasanaethau dydd wedi'u hatal am ran helaeth o'r flwyddyn, roedd staff canolfan yn cadw mewn cysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth dros y ffôn a'r rhyngrwyd. Roedd hwn yn gyfle i bobl roi adborth ar sut yr oeddent yn ymdopi a chadw mewn cysylltiad â phobl y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt.

Eleni rydym wedi parhau i weithio ar wneud ein gwybodaeth yn haws i'w deall. Mae Norman Industries yn darparu mwy o gapasiti i gynhyrchu llenyddiaeth hawdd ei deall.

Mae ein Grŵp Cyfathrebu Cyfan wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bawb. Yn ystod 2020 canolbwyntiwyd ar gysylltu â phobl ar Zoom a llwyfannau digidol eraill.

## 3.1. Beth oeddem wedi bwriadu ei wneud y llynedd?

Roeddem wedi bwriadu ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol yn ystod 2020/21.

- Cynnal ymgynghoriadau a digwyddiadau ymgysylltu pellach â phlant sy'n derbyn gofal er mwyn cael golwg fwy cynhwysfawr ar ein gwasanaethau ganddynt ac i nodi gwelliannau a chynllun gwasanaethau yn y dyfodol.
- Cynyddu lefel yr ymgynghori ynglŷn â'r teuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau seibiant plant o Holly House.
- Gweithio gyda darparwyr i ddatblygu ein datganiad o sefyllfa'r farchnad ar gyfer gofal cartref.
- Ymgynghori ac ymgysylltu â gofalwyr i ddatblygu opsiynau seibiant gan adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma i amrywio'r opsiynau seibiant sydd ar gael.
- Ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch ein gwaith atal cymunedol.

## 3.2. I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

Yn ystod y flwyddyn newidiodd rhai o'n blaenoriaethau ymgynghori oherwydd pandemig COVID, ac aeth rhywfaint o waith rhagddo. Mae'r adran hon yn disgrifio sut yr ymgysylltom â'n haelodau, ein partneriaid a'n dinasyddion i gael gwybodaeth i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

### 3.2.1 Darpariaeth Seibiant Plant Holly House

Rydym wedi datblygu a hyrwyddo mecanwaith ymgynghori ac adborth newydd i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hannog i lunio gwasanaeth y dyfodol. Gofynnir i deuluoedd a gafodd

wasanaeth drwy Holly House am eu barn am y gwasanaeth bob 6 mis, ac ar yr un pryd darperir adborth iddynt ynghylch unrhyw ddatblygiadau gwasanaeth. Bydd teuluoedd hefyd bellach yn cael cynnig y cyfle – pan fydd cyfyngiadau'n caniatáu – i gwrdd wyneb yn wyneb â rheolwr yr uned a'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth.

### 3.2.2 Gofalwyr Maeth

Ym mis Mawrth 2021, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori â gofalwyr maeth drwy holiadur ysgrifenedig a sesiwn grŵp ffocws. Roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys darparu grwpiau cymorth; hyfforddiant (rhithwir/ wyneb yn wyneb); grwpiau ffocws plant sy'n derbyn gofal a gweithgareddau ymgynghori rheolaidd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant biolegol; gwell cyfathrebu (adborth ynghylch Cylchlythyr) a'r prosesau sy'n ymwneud ag Ymweliadau Cartref.

### 3.2.3 Ymadawyr Gofal

Yn ystod 2020/21, cefnogwyd ffurfio grŵp newydd o'r rhai sy'n gadael gofal, a gynrychiolir ar y Bwrdd Rhianta Corfforaethol gan un sydd wedi gadael gofal o’r blaen.

### 3.2.4 Fforwm Dementia

Credwn mai pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd yw'r arbenigwyr o ran byw gyda'r cyflwr. Mae ganddynt y ddirnadaeth, y profiad a'r wybodaeth i ddylanwadu ar ddatblygu strategaethau, polisïau, gweithdrefnau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau dementia. Hyd yma ni fu llwyfan yn Sir Benfro i'w lleisiau gael eu clywed.

Mewn cyfarfod ar 4 Medi a hwyluswyd gan PAVS, a fynychwyd gan bobl sy'n byw gyda dementia, Cyngor Sir Penfro a chynrychiolwyr Cymdeithas Alzheimer’s, cymerodd Sir Benfro gam enfawr ymlaen drwy greu **Fforwm Byw gyda Dementia Sir Benfro.**

Bydd y fforwm yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n cynllunio gwasanaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl sy'n byw gyda dementia.

### 3.2.5 Newid Mwyaf Sylweddol – Dewis Zoom yn lle Digalonni

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein Model Newid Sylweddol i werthuso ein gwasanaethau. Amlinellir yr astudiaeth achos ar gyfer 2020/21 yn y blwch testun isod.

**Dewis Zoom nid Digalonni – Stori Newid Sylweddol**

Rwy'n gofalu am fy mam sydd â dementia. Ers ychydig fisoedd bellach, rwy'n treulio'r rhan fwyaf o'm hamser (ddydd a nos) yn nhŷ fy mam. Roedd gweithwyr gofalu yn ymweld yn ystod y dydd er mwyn imi adael fy mam am gyfnodau byr, ond newidiodd hynny gyda Covid-19. Cyn hir, roeddwn yn unig iawn ac yn ynysig iawn. Mae gan fy mam a minnau broblemau iechyd ac felly buom yn gwarchod ein hunain gyda'n gilydd. Er fy mod i'n ei charu gymaint, roedd treulio fy holl amser gyda fy mam yn gwneud i mi deimlo fy mod wedi fy nhorri i ffwrdd o'r byd. Fodd bynnag, dechreuodd fy sefyllfa newid er gwell ar ôl darllen hysbysiad ar Facebook am grŵp 'Te a Chlonc' lleol. Ffoniais a holi sut oedd ymuno. Pan glywais mai dros Zoom oedd y grŵp, meddyliais "Wel dyw hynny'n dda i ddim, a minnau ddim yn gwybod sut i ddefnyddio Zoom". Ond buan yr oedd Cherry yn fy sicrhau bod defnyddio Zoom yn hawdd ac yn addo egluro'r broses imi, pe bawn yn fodlon rhoi cynnig arni. Rwyf mor falch i mi gytuno. Cefais i a Cherry ymarfer, ac yna fe fues i'n ddigon dewr i ymuno â'r grŵp 'Te a Chlonc' y prynhawn canlynol.

Rwy'n mynychu bob wythnos erbyn hyn, ac yn cymryd rhan yn y sgyrsiau, y cwisiau a'r gweithgareddau. Am y tro cyntaf ers oesoedd, mae gennyf gysylltiad rheolaidd bellach â gofalwyr eraill mewn sefyllfa debyg i mi ac rwy'n gallu cael a rhoi cymorth gydag aelodau eraill o'r grŵp. Mae gennyf fusnes crefft ym Mhenfro, a bu'n rhaid iddo gau yn ystod y cyfnod clo, am ein bod ni'n gwarchod ein hunain. Fodd bynnag, a minnau wedi magu hyder newydd wrth ddefnyddio Zoom, rwyf wedi ailddechrau fy musnes ar-lein. Fel perchennog busnes rwy'n aelod o'r Ffederasiwn Busnesau Bach. Er fy mod yn aelod ers blynyddoedd lawer, nid wyf wedi gallu mynychu eu cyfarfodydd gan eu bod yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd yn gynnar yn y bore. Pan glywais fod y cyfarfodydd bellach yn cael eu cynnal ar Zoom oherwydd Covid-19 – meddyliais "Gwych, fe fyddaf yno!" Gyda'm hyder newydd wrth ddefnyddio Zoom, rwyf bellach yn mynychu ac yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd rheolaidd y Ffederasiwn. Erbyn hyn, rwyf wedi dewis llai o ddigalonni – a mwy o Zoom!

### 3.2.6 Yr Hyb Cymunedol

Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020 cynhaliwyd ymarfer ymgynghori anffurfiol i lywio dyfodol yr Hyb Cymunedol, a sefydlwyd yn wreiddiol mewn ymateb i bandemig COVID-19. Gofynnwyd am safbwyntiau gan:

- Grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â Rhwydwaith Cymorth Cymunedol Sir Benfro (PCSN)
- Cynghorau Cymuned a Thref.
- Cynghorwyr Sir Penfro
- Rhwydwaith Cyflymder Cysylltwyr Cymunedol Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)

- Sefydliadau trydydd sector wedi'u targedu
- Grŵp Cynghori Annibynnol Cyngor Sir Penfro (CSP), a sefydlwyd i ddarparu amrywiaeth o grwpiau cymunedol PCSN, yn unigol ac ar y cyd yn eu cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2020 (cynrychiolwyd cyfanswm o 20 grŵp)

Gofynnwyd cwestiynau am yr Hyb Cymunedol a'r gymuned ehangach. Y pynciau dan sylw oedd:

- Rôl yr Hyb Cymunedol yn y dyfodol.
- Yr hyn a weithiodd yn dda a meysydd i'w gwella.
- Cynlluniau ar gyfer y dyfodol Grwpiau Cymunedol.
- Beth fydd yn wahanol ar ôl y cyfnod clo.

Cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol iawn am yr hyb cymunedol.

| |
|---|
| "*Bu'r Hyb yn wych – adborth da – am iddo barhau*." |
| *"Mae'r Hyb Cymunedol yn syniad gwych, gan ddarparu siop un stop ledled y Sir i'r rhai y mae angen cymorth arnynt yn bersonol a'r rhai sy'n ymwneud â'r sector gwirfoddol."* |
| *"Roedd yn ased gwerthfawr i gydlynwyr....pan ofynnwyd i ni am bethau nad oeddent yn bethau pob dydd, a gallem gysylltu â'r Hyb a gofyn am gyngor."* |
| *"... yr Hyb. Mae wedi gweithio mor dda a dw i'n meddwl y buasai llawer o bobl ar goll hebddo."* |
| *"Dim byd ond canmoliaeth. Bu'n hwb i forâl i roi gwybod i bobl nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain."* |

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod yr Hyb yn rhwyd ddiogelwch i bobl nad oeddent yn gwybod ble arall i droi am gymorth neu wybodaeth. Roedd teimlad cyffredinol fod yr holl anghenion yn cael eu diwallu gan atgyfeiriadau i eraill (e.e. Cysylltwyr Cymunedol) neu'n uniongyrchol i gymorth yn y gymuned.

Soniodd rhai ymatebwyr am ddiffyg atgyfeiriadau i'r grwpiau cymorth cymunedol o'r Hyb gan fod ganddynt wirfoddolwyr yn barod ond ni ddaeth unrhyw geisiadau i mewn. Dywedodd un ymatebydd ei bod fel petai nifer o sefydliadau i gyd yn gwneud pethau tebyg, gyda llawer o wahoddiadau i ymuno â'r grŵp hwn neu'r llall. Roedd yn ymddangos yn ddryslyd a di-drefn. Teimlai un arall y dylid bod wedi cydweithio mwy rhwng yr Hyb a gwirfoddolwyr, e.e. ynghylch darpariaeth bwyd (banciau bwyd).

Roedd llai o angen yr Hyb mewn rhai ardaloedd; mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cymunedau hyn wedi gofalu am eu dinasyddion heb fod angen cysylltu â'r Hyb. Ymddengys hyn yn arbennig o wir am gymunedau llai ar draws y Sir.

O ran dyfodol yr hyb cymunedol, cafwyd canlyniad clir i weld yr Hyb yn parhau ar ryw ffurf. Bydd gwaith yn dechrau ar achos busnes cynaliadwy gan y cydnabuwyd na allai'r Hyb fod wedi gweithredu fel y gwnaeth heb y gwirfoddolwyr niferus a'i cefnogodd.

Roedd llawer o awgrymiadau ar gyfer pethau y gallai gwirfoddolwyr eu gwneud o hyn ymlaen gan gynnwys:

- Bancio amser
- Cyfeillio
- Eco-hyrwyddwyr / gwirfoddolwyr traeth
- Siediau Dynion
- Cynlluniau Cymydog Da
- Cefnogi pwyllgorau neuaddau lleol

Ers llacio'r cyfnod clo, roedd pobl yn gobeithio gweld mwy o ymdeimlad o gymuned. Roedd llawer o gymunedau'n gallu ymateb yn gyflym iawn i'r argyfwng gyda llawer o bobl yn gwirfoddoli i helpu a siopau lleol yn trefnu gwasanaethau dosbarthu. Un awgrym oedd y gallai ardaloedd gael hyrwyddwr cymunedol, a allai weithredu ar ran y gymuned, a darparu'r cysylltiad rhwng sefydliadau (e.e. CSP) a'r ardal leol.

Awgrymwyd cylchlythyr cymunedol Sir Benfro, wedi'i gynhyrchu gan gymunedau ar gyfer cymunedau, gan alluogi pobl i gael cipolwg ar straeon o gymunedau eraill, a dathlu'r hyn sy'n dda mewn cymunedau yn Sir Benfro.

Roedd angen lleihau allgau digidol gyda gwell cysylltiadau rhyngrwyd mewn sawl rhan o Sir Benfro. Roedd pobl hefyd am gael mwy o addysg ar sgiliau digidol i helpu pobl i ddeall a defnyddio'r dechnoleg sydd ar gael.

Mae llawer o'r awgrymiadau hyn eisoes yn destun gwaith, ac maent yn ymddangos yn ein blaenraglen waith ar gyfer 2021/22.

### 3.2.7 Hyb Cyflenwi Darparwyr

Sefydlwyd yr hyb cyflenwi darparwyr ar ddechrau'r pandemig i ddarparu un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau darparwyr mewnol a rhai wedi'u comisiynu. Roedd yr hyb ar gael gyda'r nos ac ar benwythnosau ar anterth y cyfnod clo gan ddarparu cyfarpar diogelu personol (PPE) a chyngor a chymorth pan oedd angen, gan gynnwys manylion am ganllawiau iechyd y cyhoedd a'u cymhwyso.

Holwyd darparwyr am eu barn ar yr hyb cyflenwi darparwyr.

*Bu'r hyb darparwyr yn arbennig o ddefnyddiol, a hithau'n bwynt cyswllt canolog. Mae'r ffordd y cafodd ei gweithredu wedi galluogi datblygu perthynas gefnogol. Fe'i hystyrir yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol, ymatebol a dibynadwy. Roedd croeso mawr i'r cyfathrebu cyson a chefnogol canolog â chomisiynwyr.*

*"Bu'r Hyb Darparwyr yn adnodd amhrisiadwy drwy gydol y broses gyfan" Lynnefield*

*Bu darparu cyfarpar diogelu personol yn amhrisiadwy. Roedd angen iddo ddechrau'n gynt. Hoffai rhai darparwyr archwilio'r posibilrwydd o brynu gyda'i gilydd i sicrhau cyflenwadau / gwella prisiau.*

*"Bu'r cymorth gyda chyfarpar diogelu personol yn amhrisiadwy" Brambles*

Nododd darparwyr hefyd y croesawyd y gallu i weithio'n electronig gyda diffyg biwrocratiaeth yn galluogi pobl i fabwysiadu atebion creadigol. Mae defnyddio cyfarfodydd rhithwir yn arbed amser, teithio a chost. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi'r taliadau cymorth a fu o gymorth mawr.

## Pa bethau y gellid bod wedi'u gwneud yn wahanol?

Dywedodd darparwyr y canlynol wrthym:

- Amlygodd llawer fater cynhwysiant digidol pobl hŷn, effaith mynediad gwael i'r rhyngrwyd a phwysigrwydd gwell band eang mewn cymunedau gwledig.
- Teimlai darparwyr fod gormod o geisiadau mynych am wybodaeth ac y dylid treialu a phrofi ffurflenni cais am wybodaeth gydag un neu ddau o ddarparwyr cyn eu hanfon at bawb.
- Soniodd llawer am yr oedi cychwynnol wrth ddarparu cyfarpar diogelu personol ond achoswyd yr oedi wrth aros i Lywodraeth Cymru ddosbarthu cyflenwadau i'r Awdurdod Lleol.
- Soniodd darparwyr hefyd am faterion ynghylch profi am Covid ac Iechyd heb fod eisiau derbyn pobl o gartrefi gofal i'r ysbyty, a bod hyn yn teimlo fel diffyg parch, gofal ac urddas a ddisgwylir i bobl hŷn mewn cartrefi gofal.
- Soniwyd am lawer o ddryswch ynghylch gwahaniaethau mewn rheolau rhwng Cymru a Lloegr (mater yn y cyfryngau cenedlaethol).
- Roedd rhai'n teimlo nad oedd digon o ymddiriedaeth mewn darparwyr i fwrw ymlaen â phethau; gormod o geisiadau am wybodaeth.
- Roedd angen mwy o gymorth cyfreithiol.

### Pethau y gallwn eu gwneud yn wahanol

- Mae angen parhau i ddangos faint rydym yn gwerthfawrogi staff gofal drwy sicrhau eu bod yn cael y cyflog byw cenedlaethol a thelerau ac amodau cyflogaeth cyson.
- Rhaid parhau i ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir ond peidio â cholli pob cyfarfod wyneb yn wyneb.
- Rôl i'r awdurdod lleol helpu gyda phrynu cyfarpar diogelu personol mewn grwpiau pe bai cyflenwadau Llywodraeth Cymru yn dod i ben.
- Hyfforddiant i weithwyr cymorth i helpu gydag iechyd meddwl a chynhwysiant digidol.

I gloi, cafwyd ymateb cadarnhaol gan ddarparwyr. Roedd croeso mawr i'r Hyb Cyflenwi Darparwyr, yn bwynt cyswllt canolog ac (yr un mor bwysig) ymateb personol da i anghenion darparwyr.

### 3.2.8 Gofalwyr

Datblygwyd arolwg ar-lein gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru (WWCDG) i ofyn am adborth gan ofalwyr di-dâl, neu weithwyr proffesiynol/sefydliadau sy'n gweithio gyda Gofalwyr di-dâl. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 11 Mai i 14 Mehefin 2020 a defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gofalwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Roedd cyfanswm o 558 o bobl yn rhan o'r arolwg (er bod y gyfradd ymateb ar gyfer cwestiynau unigol yn amrywio). Roedd 46% o'r ymatebwyr yn byw yn Sir Benfro

Mae rhai themâu cyffredinol wedi'u nodi isod:

- Mae'r 'cyfnod clo' yn rhoi pwysau cynyddol ar ofalwyr oherwydd gofynion 'gwarchod'. Roedd gofalwyr yn teimlo nad oedd ganddynt ddewis ond parhau i gefnogi. Fodd bynnag, mae rhai pobl sy'n derbyn gofal yn elwa ar fwy o amser cyswllt gyda'u gofalwr di-dâl.
- Mae galwadau, e-byst, galwadau fideo 'cadw mewn cysylltiad' yn hanfodol; gwerthfawrogwyd cyswllt rhithwir â grwpiau chymorth a chymheiriaid yn fawr; mae'n cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol gofalwyr.
- Cymorth ymarferol drwy linell gymorth – siopa, casglu meddyginiaeth, ac ati.
- Pwysleisiwyd bod egwyliau/seibiant yn bwysig, er bod anawsterau wedi'u cydnabod.
- Targedu mwy o gymorth at ofalwyr sydd yn yr angen mwyaf, neu'r rhai mwyaf ynysig.
- Byddai dosbarthu gofalwyr di-dâl fel gweithwyr allweddol yn helpu (parcio am ddim, siopa yn gynnar yn y bore); roedd anesmwythyd bod gofalwyr cyflogedig wedi cael £500 gan Lywodraeth Cymru, ond nad yw gofalwyr di-dâl wedi cael eu cydnabod yn yr un modd.
- Materion ariannol: bu'n rhaid i rai gofalwyr gael absenoldeb di-dâl, gan fod rhaid gwrthod gofal arall (gwarchod).
- I rai, mae'r cyfnod clo wedi gwneud gofalu'n haws – gweithio gartref, heb orfod paratoi'r plant i fynd i'r ysgol, dim disgwyliad i fynd allan.

Codwyd y materion canlynol gan ymatebwyr **18 ac iau** (53 o ymatebion):

- Pryderon am syrthio ar ei hôl hi gyda gwaith ysgol a phoeni a fydd ysgolion yn deall cyfrifoldebau gofalu.
- Mae'r gwasanaeth gofalwyr ifanc wedi darparu cymorth, gan gynnwys cymorth un i un.
- Pecyn/ bag lles wedi cael croeso da.
- Gwasanaethau i gysylltu mewn modd mwy amserol.

Gofynnwyd i ofalwyr pa gymorth sy'n bwysig iddynt. Gwnaed cyfanswm o 224 o sylwadau ac mae'r themâu wedi'u nodi isod:

- Mae gofal seibiant a gofal amgen yn hanfodol ar gyfer gwydnwch. Mae angen iddo fod ar gael, yn hyblyg ac wedi'i drefnu, yn fforddiadwy, yn addas. Roedd seibiant addas yn cynnwys darparu chwarae i bobl ifanc sy'n derbyn gofal, canolfannau dydd, darparu gofal preswyl neu ofal cartref, cynorthwywyr personol, a chymorth i'w gynnig yng nghartref y sawl sy'n derbyn gofal. Dylid cynnig seibiant hefyd mewn modd sy'n achub y blaen – cyn argyfwng. Seibiant oedd y mater a grybwyllwyd amlaf o bell ffordd.
- Cyfeillio/cwmni i'r un sy'n derbyn gofal: nid oes angen gofal amgen (yn unig) ar bobl o reidrwydd.
- Amser i ffwrdd o ofalu (yn gysylltiedig â seibiant).
- Nododd rhai fod gwasanaethau cymorth i ofalwyr yn 'annigonol' ac nad ydynt ond yn esgus cefnogi. Mae gwybodaeth ar gael (ac wedi'i dyblygu) ond prinder gwasanaethau gwirioneddol.
- Mae anawsterau wrth gael gafael ar gymorth i bobl sy'n derbyn gofal yn gwaethygu'r effaith ar ofalwyr. Byddai cael un cyswllt sy'n gallu cyfarwyddo'r system yn helpu.
- Mwy o gymorth gydag iechyd meddwl gofalwyr; dylai gwasanaethau profedigaeth gefnogi gofalwyr sy'n rhagweld marwolaeth y sawl y gofalir amdano.
- Darparu mwy o gymorth yn lleol ar gyfer anghenion cymhleth.
- Mae gofalwyr sy'n gwneud gwaith cyflogedig yn ei chael hi'n anodd lle mae gwasanaethau i bobl sy'n derbyn gofal ar waith '9-5' yn ystod yr wythnos: gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty, canolfannau dydd, meddygon teulu ac ati.
- Mae sefyllfa ariannol yn cyfyngu ar opsiynau, gan gynnwys wrth gymryd amser i ffwrdd o ofalu. Nodwyd anawsterau wrth gydbwyso gwaith cyflogedig â gofalu.
- Gwell dealltwriaeth o rôl y gofalwr; yn enwedig ymhlith cyflogwyr.
- Cefnogaeth gan gymheiriaid a phobl i siarad â nhw.
- Cymorth y gellir dibynnu arno gyda'r bobl sy'n derbyn gofal. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cysondeb gofalwyr cyflogedig.
- Roedd y grant gofalwyr yn help mawr i gael gafael ar weithgareddau sy'n cefnogi lles.

Gwnaed 47 o ymatebion gan y rhai o dan 19 oed:

- Mwy o amser i ffwrdd o ofalu yn gwneud gweithgareddau hamddenol a difyr, gan gynnwys y prosiect gofalwyr ifanc.
- Mwy o ofal seibiant i'r bobl sy'n derbyn gofal, gan gynnwys Holly House.
- Lle gofalir am frodyr a chwiorydd, gwerthfawrogir rhyddhau amser i'w dreulio gyda'r rhieni.
- Mwy o grwpiau gofalwyr ifanc.
- Gwell amgylcheddau hygyrch i'w gwneud yn haws mynd allan gyda'r sawl sy'n derbyn gofal.

Gwnaed 22 o sylwadau gan sefydliadau. Y materion allweddol oedd:

- Seibiannau i ofalwyr – gweithio gyda busnesau i gynnig gostyngiadau (sbas, clybiau chwaraeon, gwestai ac ati). Seibiannau i ofalwyr ifanc: gan gynnwys clybiau gofalwyr ifanc.
- Mae technoleg yn cynnig cyfleoedd: technoleg gynorthwyol (i'r bobl sy'n derbyn gofal); realiti rhithwir, hapchwarae, cymorth ac ati (seibiannau i'r gofalwr).
- Nid oes gan lawer o ofalwyr amser am fywyd y tu hwnt i ofalu.
- Diffyg ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael.
- Mae cyfnod clo'r coronafeirws yn cynyddu'r gofal sy'n cael ei roi gan ofalwyr.
- Cyfleoedd i ofalwyr ac i'r bobl sy'n derbyn gofal – digwyddiadau cymorth sy'n ddifyr ac nid er gwybodaeth yn unig.
- Mwy o ymgysylltu a chefnogaeth gan gyflogwyr.
- Mae darpariaeth gwasanaeth yn effeithio ar lwyth gwaith gofalwyr, yn enwedig os caiff ei ohirio (er enghraifft, rhestri aros ar gyfer addasiadau tai).

I ddathlu Wythnos Gofalwyr, gofynnodd **Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr Sir Benfro (PCISS)** i ofalwyr siarad am eu rôl yn ofalwyr di-dâl a'u barn am y thema 'gwneud gofalu'n weladwy'. Mae gofalwyr wedi gwneud fideos a phodlediadau am eu meddyliau a'u profiadau. Mae fideos / podlediadau a gwybodaeth am wasanaethau gofalwyr yn Sir Benfro ar gael drwy'r ddolen isod.

https://www.hafal.org/2020/06/making-caring-visible-in-2020/

### 3.2.9 Adborth Rhaglen Haf Plant gan rieni a phobl ifanc

Rhaglen Gweithgareddau Haf Hybiau yn Ysgolion CSP 2020. Daw'r ystod o sylwadau a ddewisir isod gan blant sy'n mynychu'r Rhaglen Haf. Mae rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Haf ar gael yn Adran 4.

| |
|---|
| "Mae wedi bod yn ardderchog ac yn wych i'r Gymuned" |
| *"Mae fy nau o blant wedi mwynhau Cynllun gweithgareddau'r Haf yn fawr iawn. Bu llawer i'w cadw'n brysur ac yn hapus. Bu'n lle braf i osgoi'r torfeydd prysur yn y cyfnod prysur hwn."* |
| *"Wedi mwynhau dod i'r grwpiau'n fawr ... wedi'u trefnu'n dda, yn ddiogel ac yn hwyl."* |
| *"Ar hyn o bryd, dyma'r unig adeg y mae fy mhlant yn cael cymdeithasu gyda'u ffrindiau."* |
| *"Wedi mwynhau'r gweithgareddau'n llwyr ac roedd y bwyd yn hyfryd"* |
| *"Roeddwn yn poeni am ddod ond yn teimlo'n gartrefol ar unwaith am fod y staff mor neis"* |
| *"Mae'r cyfleuster yn werth y byd. Mae wedi'i werthfawrogi'n fawr gan ei fod yn rhoi cyfleoedd i'r plant chwarae mewn man lleol diogel, a seibiant mawr ei angen i'r rhieni."* |
| *"Wela i ddim o'i le arno!"* |
| *"Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn digwydd eto'r haf nesaf. Bu mawr ei angen ac mae teuluoedd ardal Dinbych-y-pysgod yn ei werthfawrogi'n llwyr."* |
| *"Mae fy ŵyr wedi cael yr haf gorau yma."* |
| *"Roedd y staff i gyd yn anhygoel ac yn hawdd mynd atynt, am eu bod yn gwneud i'm plant chwerthin a theimlo'n ddiogel gan eu bod yn nerfus am fynd allan. Wedi'i drefnu'n dda iawn, a byddwn yn dod eto."* |
| *'Amgylchedd diogel i hongian a sgwrsio'* |
| *"Mae'r hybiau wedi bod o gymorth mawr i mi ac mae fy nwy ferch yn teimlo'n fwy cartrefol yn dilyn cyfnod clo Covid-19. Diolch am drefnu'r gweithgareddau ac am staff mor gyfeillgar."* |
| *"Rwyf wedi cael tatws pob mor hyfryd, pecynnau prydau bwyd dros y mis diwethaf nawr, bu'n gymorth gwych drwy gydol cyfnod anodd i bawb. Mae'r gefnogaeth wedi rhoi syniadau ar gyfer prydau blasus, cael y plant i gymryd rhan mewn paratoi a choginio'r prif bryd bwyd. Mae'r plant wedi mwynhau cymryd rhan. Diolch i bawb sydd ynghlwm wrtho, rydym wedi'i werthfawrogi'n fawr."* |

*"Mae hwn wedi bod yn wasanaeth ardderchog yn ystod cyfnod anodd iawn – diolch"*

*"Helpodd yr holl brofiad yn ystod y cyfnod hwn i ailgymdeithasu"*

*"Mae fy mhlant wedi bod wrth eu boddau ac rwy'n credu y bydd yn helpu pan fyddwn yn mynd yn ôl i'r ysgol yr wythnos nesaf. Mae'r drefn wedi eu helpu ac rwyf wedi mwynhau cymdeithasu hefyd. Diolch yn fawr iawn am gynnal hyn"*

*"Gwasanaeth rhagorol, yn darparu offer am ddim i blant a darparu bwyd am ddim hefyd. Mae hwn wedi bod yn gyfleuster ardderchog, yn cael y plant allan ac yn egnïol. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn parhau ar gyfer y flwyddyn nesaf"*

Byddwn yn parhau i adeiladu ar lwyddiant y gweithgareddau hyn yn ystod 2021/22.

### 3.2.10 Trawsnewid Cyfleoedd Dydd

Yn 2018/19 ymrwymwyd i adolygu ein gwasanaethau dydd er mwyn eu cydredeg yn agosach â diwallu anghenion yr hyn y mae pobl yn ei alw'n fodel llai traddodiadol o wasanaethau dydd. Ein nod oedd cydgynllunio model newydd o ddarparu gwasanaethau gyda'n partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Cynhaliwyd 13 digwyddiad cyd-gynhyrchu ym mis Chwefror 2019. Nododd y gwaith hwn fodel 'prif ganolfan a lloerennau'. Mae'r prif ganolfannau'n fodd i bobl gael at gyfleuster y ganolfan ddydd a chydlynu gweithgareddau, a'r lloerennau'n cynnwys ystod eang ac amrywiol o weithgareddau sy'n addas i anghenion yr unigolyn fel paentio, marchogaeth, garddio, cerdded. Byddai'r Lloerennau'n cynnwys pob gwasanaeth a ddaw'n rhan o'r dull 'dewis a dethol' a gynigia'r model newydd. Byddai cynnig pob Lloeren yn cynnwys 'llwyfan' tryloyw i bawb gael gweld beth sydd ar gael ym mhob Lloeren. Byddai gofyn i'r 'llwyfan' gael system sy'n gadael i gwsmeriaid gydgynhyrchu gwasanaeth personol, addas i'w hanghenion unigol drwy'r broses asesu.

Mae'r tîm yn gweithio ar y model terfynol sy'n ystyried sut y gall defnyddiwr gwasanaeth y nodwyd bod angen arno ddewis o blith gweithgareddau amrywiol ar adeg gyfleus. Bydd angen caffael gweithgareddau ar ran y defnyddwyr gwasanaeth, felly mae'r tîm hefyd yn edrych ar wahanol ddulliau o dalu a dyrannu adnoddau ariannol.

### 3.2.11 Ymgysylltu ag Aelodau ein Cyngor

Yn ystod 2020/21, gwnaethom barhau i weithredu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu penodol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi dull mwy cynhwysfawr o graffu ar ddarparu gwasanaethau ac arferion gofal cymdeithasol. Craffodd yr Aelodau ar ein perfformiad o ran Adfer o'r cyfnod clo cyntaf, cynllunio'r gweithlu, ein gwaith atal, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a llawer o bynciau eraill drwy gydol y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth am y pwyllgor hwn gan gynnwys agendâu a chofnodion ar gael ar wefan y cyngor.

## 3.3. Ein Blaenoriaethau Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gyfer 2021/22

Byddwn yn parhau i gysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i gyd-gynhyrchu model newydd o gyfleoedd dydd. Byddwn yn adolygu ein model Talu Uniongyrchol o ddarparu gwasanaethau er mwyn nodi gwelliannau yn y dyfodol a chynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt.

Byddwn yn parhau i ymgynghori â'n Defnyddwyr Gwasanaethau Oedolion a Phlant sy'n Derbyn Gofal fel y gallwn fonitro boddhad â gwasanaethau a nodi meysydd i'w gwella yn y dyfodol.

O ran cyflogeion, byddwn yn parhau i gynhyrchu cylchlythyr misol i rannu arfer gorau, newyddion da a gwybodaeth ar draws Gofal Cymdeithasol a Thai. Byddwn hefyd yn datblygu safle'r fewnrwyd fel y gall gweithwyr ddod o hyd i'r wybodaeth y maent yn chwilio amdani yn gyflym ac yn hawdd.

Ar gyfer 2021/2022 byddwn yn ymgymryd â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu o amgylch y Strategaeth Heneiddio'n Dda ac rydym hefyd yn gwneud gwaith ymgysylltu i gefnogi Asesiad Lles y BGC a hefyd yn datblygu gwaith sy'n ymwneud â llais gofalwyr di-dâl.

## 3.4. Cwynion a Chanmoliaeth

Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth diduedd i'n holl achwynwyr, rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm cwynion corfforaethol sy'n monitro ein perfformiad, yn cysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ac ombwdsmon, pan fo'n briodol, ac yn rhoi dadansoddiad blynyddol i ni o'n perfformiad. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu o gwynion ac mae argymhellion yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl. Mae cysylltiadau agos hefyd ar waith â'n prosesau Sicrhau Ansawdd ac Archwilio fel y gallwn brofi bod gwelliannau wedi'u rhoi ar waith. Rydym yn rhannu unrhyw ddysgu o gwynion gyda'n partneriaid gan ddefnyddio "gwersi a ddysgwyd" i lywio a gwella ein harfer proffesiynol.

### 3.4.1 Cwynion

Cafodd Gofal Oedolion 47 o gwynion yn 2020/21 sef yr un fath ag yn 2019/20 ac yn llai na'r 59 a gafwyd yn ystod 2018/19.

Cafodd y gwasanaethau i blant 32 o gwynion a oedd yn fwy na'r 26 a gafwyd yn ystod 2019/20 ond yn debyg i'r 31 a gafwyd yn 2018/19.

### 3.4.2 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Os na chaiff cwynion eu datrys yn llwyddiannus yn dilyn Gweithdrefn Gwyno'r Cyngor, gall yr Achwynydd wneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon). Rhoddir manylion cyswllt yr Ombwdsmon i achwynwyr os ydynt yn dymuno mynd ar drywydd cwyn.

Yn ystod 2020-21 cafodd yr Ombwdsmon chwe cwyn mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n gynnydd o ffigur y llynedd o bump. Arweiniodd hyn at y canlyniadau canlynol:

- Gwrthodwyd dwy yn rhai cynamserol
- Roedd dwy heb ymchwilio iddynt
- Cafodd un ei datrys yn gynnar
- Roedd un allan o'r awdurdodaeth

### 3.4.3 Canmoliaeth

Cafodd y Gwasanaethau i Blant 25 o ganmoliaethau yn 2020/21 sy'n llai na'r 48 o ganmoliaethau a gafwyd yn ystod 2019/20 a'r 46 yn ystod 2018/19. Yn ôl pob tebyg, mae hyn o ganlyniad i atal gwasanaethau ataliol plant ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn oherwydd rheoliadau COVID. Arweiniodd hyn at ein Tîm o Amgylch y Teulu yn cael 8 yn llai o ganmoliaethau na'r blynyddoedd blaenorol.

Cafodd Gofal Oedolion 59 o ganmoliaethau yn 2020/21, felly mwy na'r 58 a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol a'r 38 a gafwyd yn 2018/19.

# 4. Hyrwyddo a Gwella Lles y Rhai a Helpwn

Mae lles unigolyn wrth wraidd popeth a wnawn. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau ein bod yn cefnogi lles y bobl hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn dangos sut y buom yn gweithio tuag at hyrwyddo a gwella lles pobl sy'n byw yn Sir Benfro.

Rydym wedi cysylltu'r gwaith a wnawn â'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol. Ar gyfer pob safon ansawdd rydym yn adolygu sut y gwnaethom berfformio y llynedd yn erbyn ein blaenoriaethau a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22.

## Safon Ansawdd 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

### 4.1.1 Beth oedden ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

- Roeddem yn bwriadu datblygu ein gwaith ataliol i oedolion a phlant. Byddwn yn ymhelaethu ar y gwersi a ddysgwyd o sefydlu'r Hyb Cymunedol a oedd yn rhoi cymorth i bobl yn ystod pandemig COVID.
- Roeddem wedi bwriadu adolygu contract Taliadau Uniongyrchol gyda'r bwriad o weithredu gwasanaeth gwell a reolir yn uniongyrchol, a mwy o hyrwyddo a manteisio ar daliadau uniongyrchol.

### 4.1.2 I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

#### Gwasanaethau Atal

Roeddem wedi bwriadu gweithio ar barhau i ddatblygu a gweithredu gwasanaethau atal ar draws y gwasanaethau i oedolion ac i blant er mwyn rheoli'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol. Roedd hwn yn flaenoriaeth allweddol a nodwyd yn y cynllun corfforaethol ac mae'n cefnogi'r rhaglen weinyddu. Credwn y gallwn leihau’r galw am ofal statudol drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac ymyrryd yn gynharach. Drwy feithrin gallu a dyfeisgarwch mewn cymunedau, gallwn oedi neu hyd yn oed atal yr angen am ofal cymdeithasol.

#### Atal i Blant

Mae gan Sir Benfro amrywiaeth o wasanaethau cymorth i deuluoedd, a rhai'n cael eu darparu gan asiantaethau statudol ac eraill gan y Trydydd Sector. Ariennir nifer sylweddol o'r rhain drwy fentrau Llywodraeth Cymru o dan ymbarél y Grant Plant a Chymunedau.

Cafodd llawer o'r gwasanaeth atal i blant ei derfynu dros dro ar ddechrau pandemig Covid ym mis Mawrth 2020. Cafodd y staff eu hadleoli i amrywiaeth o rolau amgen gan gynnwys darparu cyfarpar diogelu personol, rolau gofalwyr oedolion, a gweithredwyr galwadau hybiau cymunedol.

Yn ystod y 5 wythnos o wyliau ysgol yr haf, darparwyd rhaglen ddyddiol o weithgareddau mewn pedwar Hyb Cymunedol yn yr Ysgol a dau safle Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd yr hybiau eisoes wedi ymuno â'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (SHEP) ac fe'u dewiswyd oherwydd lefelau amddifadedd Prydau Ysgol am Ddim ac angen cymunedol hysbys. Datblygwyd y rhaglen ddyddiol o weithgareddau a phrydau bwyd ar y cyd â Dechrau'n Deg, Chwaraeon Sir Benfro, Cydgysylltwyr Chwarae Sir Benfro a'r Gwasanaeth Arlwyo Mewn Ysgolion. Wedi'i dargedu at bobl ifanc rhwng 3 a 14 oed, roedd y Gwasanaeth yn rhad ac am ddim i bawb heb fod angen cadw lle ymlaen llaw.

Un o elfennau ychwanegol y rhaglen oedd cefnogi ein darparwyr Ieuenctid trydydd sector yn ein prif drefi yn Hwlffordd, Abergwaun, Aberdaugleddau a Phenfro. Roedd y cymorth ieuenctid hwn yn darparu cyswllt i bobl ifanc rhwng 12 a 16 oed yn bennaf. Sicrhaodd gynnig cyfannol i bob plentyn a pherson ifanc ledled y Sir a galluogodd staff proffesiynol i ail-ymgysylltu ar ôl don gyntaf y pandemig a chefnogi eu lles.

Oherwydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â COVID-19, bu ysgolion ar gau i’r mwyafrif o bobl ifanc ar wahân i ddisgyblion agored i niwed a nodwyd a phlant gweithwyr allweddol. I lawer o bobl ifanc a gyfyngwyd rhag cymdeithasu â'u ffrindiau, roedd yr hybiau’n cynnig lle diogel rhag Covid i gymryd rhan mewn gweithgareddau iach a helpu pobl ifanc a theuluoedd i ymlithro’n ôl i fywyd normal. Nod ein rhaglen oedd:

- Cefnogi plant sy'n agored i niwed sydd ag ADY sylweddol neu sydd mewn perygl o’r teulu’n chwalu neu y mae angen gwasanaethau statudol ychwanegol arnynt
- Cefnogi lles a lleihau pryder ynghylch dychwelyd i'r Ysgol
- Galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon / ffitrwydd
- Cefnogi'r Gymuned wrth i ni ddod allan yn raddol o'r cyfnod clo i hyrwyddo presenoldeb yn yr Ysgol ar gyfer y tymor newydd
- Targedu rhai plant sy'n agored i niwed yn rhan o'n cymorth diogelu i sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn rheolaidd
- Helpu pobl ifanc i oresgyn ofnau a darparu cyfleoedd i feithrin perthynas â gweithwyr ieuenctid, staff mewn ysgolion a gwasanaethau cwnsela
- Sicrhau bod pobl ifanc sy'n agored i niwed yn cael byrbryd iach poeth
- Rhoi cyngor a chyfleoedd ar ffordd iach o fyw a diet
- Cynorthwyo teuluoedd yr effeithiodd Covid arnynt yn ariannol drwy eu cyfeirio am gymorth at ganolfannau Cyngor ar Bopeth a'n partneriaid a gomisiynir yn y trydydd sector.

Helpodd y rhaglen yr haf lawer o bobl ifanc a theuluoedd mewn gwahanol ffyrdd. Mynychodd cyfanswm o 701 o blant y chwe Hyb a oedd yn cynnig lle diogel iddynt gyfarfod a chyfle i'r plant chwarae a chymdeithasu gyda'u ffrindiau. Roedd yn amlwg bod pobl yn arbennig o bryderus oherwydd y mewnlifiad o dwristiaid ac roedd yn amlwg bod croeso arbennig i'r Hybiau yn yr ardal leol yn ystod y pandemig. Darparodd yr Hyb le diogel wedi'i reoli gyda mesurau diogelu Covid ar waith megis olrhain cysylltiadau, diheintio dwylo'n rheolaidd a chadw pellter cymdeithasol.

Roedd yr adborth gan y rhai a fynychodd yn gadarnhaol iawn er bod gwersi hefyd wedi'u dysgu.

- Yn gyffredinol, roedd y gweithgareddau'n gweithio'n dda, er nad oedd y prosiect yn ymgysylltu â'r grŵp oedran 12-16 ac fel petai'n denu teuluoedd â phlant iau.
- Roedd y canolfannau ardal yn gweithio'n dda ar y cyfan, er bod rhai o'r Hybiau'n araf yn magu momentwm ac yn denu cwsmeriaid.
- Effeithiwyd ar y strategaeth farchnata gan amserlenni ac nid oedd ysgolion yn gallu hyrwyddo'r ddarpariaeth fel y byddent mewn blwyddyn arferol.
- Roedd defnyddio cyfryngau cymdeithasol drwy gymwysiadau Ysgol a Facebook yn llawer mwy effeithiol na gwefan CSP wrth gyfeirio teuluoedd.
- Bu Dinbych-y-pysgod yn boblogaidd i drigolion lleol gan fod llawer yn teimlo'n bryderus oherwydd effaith twristiaid yn ymweld. Mae'n debyg bod y niferoedd yn uwch gan fod mwy o le a bod y ddarpariaeth dan do yn caniatáu i weithgareddau ddigwydd waeth beth fo'r tywydd.
- Er bod y lleoliadau eraill mewn sefyllfa dda o ran cefnogi cymunedau mwy agored i niwed a difreintiedig, nid oedd y ddarpariaeth bob amser yn addas i gynnal gweithgareddau hwyliog yn ystod tywydd garw am fod yr adeilad yn llai ac oherwydd prinder lle campfa ar gyfer gemau, ffitrwydd a chwarae.

## Darpariaeth Ieuenctid Haf y Trydydd Sector

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r gweithgareddau ategol a ddarparwyd yn rhan o'n darpariaeth ieuenctid yn ystod 2020/21.

| | Crynodeb o'r Ddarpariaeth | Cyfanswm y Cysylltiadau | Cyfanswm Defnyddwyr Unigol |
|---|---|---|---|
| **Hive Hwlffordd** | Wedi darparu gwasanaeth galw heibio i gyfarfod a sgwrsio. Gwnaethpwyd a bwytawyd 755 pitsa cartref.<br>Gan weithio gyda'r banciau bwyd, dosbarthodd staff a gwirfoddolwyr yr Hive barseli bwyd i'r rhai mewn angen bob dydd Mawrth. | 838 | 93 |

| | Crynodeb o'r Ddarpariaeth | Cyfanswm y Cysylltiadau | Cyfanswm Defnyddwyr Unigol |
|---|---|---|---|
| **The Point Abergwaun** | Dosbarthwyd 120 o becynnau bwyd a chardiau ryseitiau yn ystod yr haf a 15 o boptai araf. Roedd y ddarpariaeth hon ar garreg y drws yn galluogi gweithwyr ieuenctid i ddal i fyny â phobl ifanc a chadw llygad eu lles yn ogystal â darparu parseli bwyd fforddiadwy a chyngor maethol. | 120 | 72 |
| **Tanyard Penfro** | Croesawodd Prosiect Ieuenctid Tanyard yr aelodau am fwyd am ddim, hufen iâ, sgwrs ac amrywiaeth o weithgareddau awyr agored yn ogystal â sesiynau stiwdio cerddoriaeth ar sail apwyntiadau. Dros 5 wythnos:<br>• Darparwyd hufen iâ a sgwrs yn y cwrt bob dydd.<br>• Gweiniwyd 136 o brydau poeth.<br>• Ar y tir comin, chwaraewyd pêl-droed a rownderi a threfnwyd helfa drysor cod QR.<br>• Yn y cwrt, chwaraewyd cerddoriaeth, dawns a gemau bwrdd addas.<br>• Roedd 25 o sesiynau stiwdio cerddoriaeth i bobl ifanc ar sail apwyntiad.<br>• Ymunodd tri aelod newydd. | 262 | 49 |
| **Milford Matters, Aberdaugleddau** | Datblygodd Milford Matters Brosiect Llwgu yn ystod y Gwyliau i gefnogi teuluoedd agored i niwed yn eu Cymuned. Dros y 5 wythnos:<br>• Gweiniwyd 203 o brydau tatws pob i bobl ifanc.<br>• Dosbarthwyd dros 180 o bwdinau poeth i bobl ifanc<br>• Darparwyd 90 o becynnau brecwast.<br>• Dosbarthwyd 155 o Becynnau Llysiau<br>• 25 o Becynnau Coginio Prydau Tro-Ffrio<br>• Prynwyd a dosbarthwyd 15 o boptai araf i bobl ifanc a rhieni ifanc 16-25 oed sy'n byw'n annibynnol.<br>• Dosbarthwyd pecynnau Gweithgareddau a Chelf hefyd i 50 o bobl ifanc | 405 | 110 |

## Atal i Oedolion

### Hyb Cymunedol

Ar ddechrau'r pandemig, sefydlwyd Hyb Cymunedol amlasiantaeth rhwng Cyngor Sir Penfro (CSP), Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) a Delta Wellbeing gyda chymorth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd). Mae ymrwymiad parhaus i'r Hyb yn rhan o'r broses cynllunio adfer.

Mae'r Hyb yn darparu siop un stop i bobl sy'n hunanynysu neu'n gwarchod eu hunain yn ystod COVID. Gall unrhyw un yn Sir Benfro gysylltu â'r Hyb a bydd y tîm yn dod o hyd i atebion cymunedol lleol, sy'n aml yn cynnwys eu paru â grwpiau cymorth cymunedol lleol a arweinir gan wirfoddolwyr a all gynnig cymorth gyda thasgau fel siopa, presgripsiynau ac ati.

Mae'r Hyb Cymunedol yn ymateb i anghenion unigol pobl wrth iddynt gyflwyno ac mae'r cynnig wedi'i deilwra i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae'r rhestr ganlynol yn amlinellu'n fras y math o gymorth sydd ar gael:

- Gwybodaeth a chyngor
- Cyfeirio neu gyflwyniadau cynnes i grwpiau cymorth cymunedol sy'n cynnig cymorth gyda thasgau fel siopa, presgripsiynau, galwadau lles cyfeillgar, mynd â chŵn am dro ac ati.
- Cyfeirio neu gyflwyniadau cynnes i wasanaethau cymunedol am ddim fel gwasanaethau cymorth y trydydd sector e.e. Age Cymru, CAB, Volunteering Matters, ac ati
- Parseli bwyd brys mewn partneriaeth â banciau bwyd lleol
- Gwasanaeth casglu a chludo wedi'i neilltuo ar gyfer yr Hyb Cymunedol, ynghyd ag opsiynau trafnidiaeth gymunedol e.e. PACTO, RVC ac ati.
- Atebion pwrpasol e.e. technoleg i gefnogi cyswllt ag aelodau o'r teulu ar ddiwedd eu hoes
- Atgyfeiriadau i wasanaethau statudol e.e. gofal cymdeithasol, tai ac ati.

Gall pobl gysylltu â'r Hyb dros y ffôn i un pwynt cyswllt neu drwy e-bost. Mae pob cartref yn Sir Benfro wedi cael taflen yn darparu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael, gan gynnwys manylion cyswllt yr Hyb Cymunedol yn ystod cyfnodau clo.

Cynhyrchodd y pandemig gynnydd sylweddol yn y galw am gymorth yn y gymuned megis siopa, casglu presgripsiwn. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf rhwng mis Mawrth a mis Awst, cafwyd ac ymatebwyd i fwy na 6,650 o alwadau. Yn ystod y don gyntaf roedd dros 1600 o bobl yn Sir Benfro yn dibynnu ar gynllun bocs bwyd wythnosol Llywodraeth Cymru a gydlynwyd gan yr Hyb Cymunedol.

Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer y bobl sy'n unig ac ar eu pennau eu hunain, gan nad ydynt wedi gallu cymryd rhan yn eu rhwydweithiau cymdeithasol arferol. Mae Cysylltwyr Cymunedol PAVS a Swyddogion Lles Delta wedi gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy adeiladu cysylltiadau

cymdeithasol a digidol. Mae partneriaid hyb yn datblygu dulliau cynhwysiant digidol cydweithredol i ateb y galw cynyddol am fynediad digidol i wasanaethau a sgyrsiau / cyfarfodydd / apwyntiadau rhithwir (gydag aelodau o'r teulu, gweithwyr cymdeithasol a meddygon).

Sefydlwyd dros 100 o grwpiau Cymorth Cymunedol ledled y Sir mewn ymateb i'r pandemig. Cefnogwyd y rhwydweithiau hyn gan PAVS ac maent yn aelodau cofrestredig o Rwydwaith Cymorth Cymunedol Sir Benfro (PCSN) a ffurfiwyd yn ddiweddar. Caiff aelodau PCSN gyngor, arweiniad a chymorth i'w galluogi i weithredu'n ddiogel ac yn effeithiol, gyda chyfarfodydd ZOOM rheolaidd a grŵp Facebook caeedig ar gyfer Cydlynwyr.

Dathlwyd cyfraniadau ac ymrwymiad cymunedau lleol, gwirfoddolwyr, grwpiau a sefydliadau drwy gydweithrediad rhwng partneriaid Hyb Cymunedol ac artist lleol, gyda chreu a datblygu darn o waith celf digidol a fideo cysylltiedig - www.youtube.com/watch?v=VVIdTjCuMio&nodwedd=youtu.be

## Prosiect Cysylltu

Prosiect yw hwn a ariennir gan Gronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru, ac a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, wedi'i gynllunio i helpu i gysylltu unigolion o fewn ac ar draws cymunedau. Bwriedir llwyfannau digidol fel ffordd ddigidol i holl drigolion Gorllewin Cymru ddod o hyd i'w gilydd a helpu ei gilydd drwy rannu eu hamser yn gyfartal. Mae'r llwyfannau'n cynnwys lle Teams lle gall aelodau'r gymuned gydweithio a gweithio ar syniadau a fydd yn gwella eu hardal. Bydd lle hefyd i grwpiau a gwasanaethau cymunedol arddangos eu digwyddiadau a'u gweithgareddau ar-lein ac all-lein. Mae amrywiaeth o fideos defnyddiol ar y llwyfannau : www.connectpembrokeshire.org.uk www.cysylltusirbenfro.cymru

## Hyb Cyflenwi Darparwyr

Wedi'i ddatblygu fel 'siop un stop' i’r sector gofal, sefydlwyd y Ganolfan Cyflenwi Darparwyr yn rhan o'n hymateb tactegol i bandemig COVID. Crëwyd un pwynt cyswllt ffôn ac e-bost fel y gallai ein darparwyr gael at gymorth a chyngor cyn gynted â phosibl. Buom yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos ar anterth y pandemig i sicrhau bod darparwyr yn cael cymorth ar benwythnosau.

Gan gydweithio â chydweithwyr o'r Bwrdd Iechyd Lleol, Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (Clefyd Trosglwyddadwy), rydym yn cefnogi ein cartrefi gofal preswyl a darparwyr eraill pan fyddant yn teimlo effaith staff a defnyddwyr gwasanaethau yn profi'n bositif am COVID. Mae ein tîm ym mhen draw’r ffôn i wrando a chynnig cymorth ac arweiniad emosiynol, ymarferol a thechnegol. Gall yr Hyb Cyflenwi Darparwyr gael gafael ar brofion cartref cyfan, dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol, darparu canllawiau atal a rheoli haint ynghyd â dod o hyd i staff ychwanegol i ofalu, coginio a glanhau os oes angen.

Pan roir cartref gofal o dan gyfyngiad oherwydd COVID, bydd yr Hyb Cyflenwi Darparwyr a Thimau Iechyd yr Amgylchedd yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â Rheolwr y Cartref Gofal, ac yn darparu cymorth ac arweiniad parhaus. Cynhelir cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol i drafod unrhyw bryderon a chefnogi'r cartref gofal i asesu risg y sefyllfa, defnyddio eu cynlluniau busnes wrth gefn a'u cefnogi i wneud y penderfyniadau cywir i’w cartref gofal, ar sail canllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Pan fydd cynlluniau parhad busnes yn methu ac ni all cartrefi gofal ddarparu lefelau diogel o ofal a chymorth, mae partneriaid yn ymyrryd i leddfu'r pwysau hynny.

O leiaf bob wythnos, mae'r Uned Gydlynu Ymateb Rhanbarthol i gartrefi gofal yn cwrdd, wedi’i chadeirio gan un o Ymgynghorwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru, i adolygu unrhyw newidiadau yn y canllawiau diweddaraf, ac i drafod y cartrefi gofal ym mhob sir sy'n destun embargo ar y pryd.

Er ein bod yn gallu cyfeirio cartrefi gofal a rhannu arweiniad ac arfer gorau gyda hwy, mae’n bwysig nodi fod rhaid i lawer o’r penderfyniadau gael eu gwneud yn y pen draw gan y Rheolwr Cofrestredig a'r Unigolyn Cyfrifol, gan mai eu cyfrifoldeb cyfreithiol hwy ydyw.

Mae'r Hyb Cyflenwi Darparwyr yn gwneud galwadau ffôn allan i'r holl wasanaethau i gadw cysylltiad â darparwyr, gan gynnig cymorth yn ôl yr angen. Roedd gan rai darparwyr gyswllt dyddiol ar anterth y pandemig. Mae'r tîm hefyd yn cefnogi cyfathrebu i sicrhau bod gweithredwyr yn cael gwybod yn briodol am newidiadau deddfwriaethol a'u heffaith ar ddarparu gwasanaethau, ac yn eu deall. Mae cyngor ar ddiweddaru cynlluniau parhad busnes ar gael yn rhwydd.

Un o swyddogaethau allweddol yr Hyb Cyflenwi Darparwyr yw cydlynu profion COVID ar gyfer staff gofal a chymorth ar draws y sector. Mae hyn yn cynnwys prosesu atgyfeiriadau profi a sicrhau profion mewn pryd mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd Lleol. Cynorthwyodd y tîm hefyd gyda'r cynnig o frechiadau i grŵp blaenoriaeth 2 JCVI.

### Taliadau Uniongyrchol

Credwn y gall defnyddwyr gwasanaeth gael mwy o hyblygrwydd a rheolaeth dros eu gofal drwy ddewis cael Taliad Uniongyrchol. Mae Taliadau Uniongyrchol yn ffordd i bobl gyflogi eu staff eu hunain a hefyd prynu ystod eang o wasanaethau a chymorth.

Isod ceir rhai sylwadau gan ddefnyddwyr taliadau uniongyrchol:

| |
|---|
| *'Mae pethau'n mynd yn dda, rwy'n teimlo ein bod wedi cael bywyd newydd oherwydd Taliadau Uniongyrchol'.* |
| *"Mae'r gallu i ddewis ei Gynorthwyydd Personol ei hun yn helpu i dawelu meddwl fy mab, sef cael pobl y mae'n eu hadnabod. Mae wedi agor llond byd i ni'.* |

Fodd bynnag, mae rhai defnyddwyr gwasanaeth o'r farn bod y Taliadau Uniongyrchol yn cynnwys llawer iawn o waith papur cymhleth, ac mae heriau hefyd o ran recriwtio Cynorthwywyr Personol. Rydym yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy wneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Yn ystod 2020/21 gwnaethom adolygu ein contract gyda Diverse a phenderfynwyd dod â gwasanaeth cymorth Taliad Uniongyrchol newydd yn fewnol. Sefydlwyd tîm taliadau uniongyrchol sy'n cynnwys arbenigwr cyflogres, cynghorwyr byw'n annibynnol a staff ychwanegol i gefnogi'r gwaith o farchnata a recriwtio cynorthwywyr personol.

Ar hyn o bryd mae pob Taliad Uniongyrchol yn Sir Benfro yn cael ei gwario gan unigolion ar eu cefnogaeth eu hunain. Nid oes diwylliant o gyfuno cyllidebau na phobl yn cael eu cefnogi ar yr un pryd. Mae datblygu mentrau cydweithredol taliadau uniongyrchol yn flaenoriaeth allweddol felly defnyddiwyd cyllid gennym i gyflogi gweithwyr datblygu sy'n sbarduno gwelliannau i wasanaethau ac yn cefnogi'r gwaith o sefydlu micro-fentrau a mentrau cydweithredol taliadau uniongyrchol. Rydym yn gweithio gyda chwsmeriaid, cymunedau, busnesau, cwmnïau cydweithredol ac unigolion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau.

### 4.1.3 Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith atal i oedolion a phlant. Ymhelaethwn ar y gwersi a ddysgwyd o sefydlu'r Hwb Cymunedol i gefnogi pobl yn ystod pandemig COVID. Nodwn a allwn ddatblygu model cynaliadwy i'r hyb cymunedol barhau i weithredu ar ôl y pandemig.
- Byddwn yn cynyddu'r gwaith o hyrwyddo a manteisio ar Daliadau Uniongyrchol fel y gall pobl fod yn rheoli eu darpariaeth gofal eu hunain.
- Byddwn yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ein darpariaeth cysylltu bywydau fel dewis yn lle gofal preswyl, ac yn hyrwyddo hyn yn fwy.
- Byddwn yn datblygu ein cynnig gofal a alluogir gan dechnoleg i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.
- Byddwn yn adolygu ein gwasanaeth larwm cymunedol a'n canolfan offer cymunedol.

## Safon Ansawdd 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.

### 4.2.1 Beth oedden ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

Yn ystod 2020/21, roeddem yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid ledled y rhanbarth i ddatblygu cysyniad am 'ganolfannau rhagoriaeth' ailalluogi newydd sy'n rhoi cymorth cam-i-fyny a cham-i-lawr o'r radd flaenaf i atal derbyn i'r ysbyty a helpu pobl i adennill annibyniaeth ar ôl eu rhyddhau.

- Roeddem am weithredu model ailalluogi newydd a weithredir gan y Cyngor yn uniongyrchol i wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Roeddem yn gobeithio agor cyfleusterau a sefydlu tîm gofal canolraddol i gefnogi lles defnyddwyr gwasanaeth drwy eu camu allan o'r ysbyty i amgylchedd gofal gyda ffocws ar adsefydlu.
- Roeddem yn bwriadu parhau i adolygu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty gyda'r nod o newid y ffordd y caiff asesiadau gofal eu cwblhau yn yr ysbyty.
- Roeddem yn bwriadu datblygu ein gwasanaeth Gofal Cartref a reolir yn uniongyrchol.

### 4.2.2 I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

#### Ailalluogi

Trosglwyddwyd y gwasanaeth ailalluogi o Human Support Group (HSG) i Gyngor Sir Penfro (CSP) ar 1 Tachwedd 2019. Trosglwyddwyd y staff i CSP o dan reoliadau TUPE. Bu Rheolwr y Tîm Ailalluogi, Arweinwyr Tîm a chynrychiolwyr staff yn cydweithio i greu trefniadau rota newydd a chynllunio'r gwasanaeth yn effeithlon.

Denygs ein dangosyddion perfformiad welliant yn y canlyniadau i'r defnyddwyr gwasanaeth. Yn ystod 2020/21, cyflenwyd 152 o becynnau ailalluogi gyda 123 yn lliniaru'r angen am gymorth yn y dyfodol. Mae hyn yn cyfateb i 81% sy'n welliant sylweddol ar yr ychydig flynyddoedd diwethaf (59% yn 2017/18 a 65% yn 2019/20).

Yn rhan o ddatblygu'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn agorwyd cyfleuster ailalluogi preswyl ag wyth gwely yn Martello House, Doc Penfro.

## Gofal Canolraddol

Mae gofal canolraddol yn amrywiaeth o wasanaethau iechyd, cymdeithasol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion dinasyddion ac atal mynediad diangen i'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi trosglwyddo'n brydlon yn ôl adref o'r ysbyty a chynorthwyo'r unigolyn i adsefydlu. Nod y gwasanaeth yw cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl, fel y gallant barhau i fyw a heneiddio'n dda yn Sir Benfro. Er mwyn ymateb i argyfwng COVID, daeth y tîm yn gwbl weithredol ym mis Mawrth 2020.

Mae gan y Tîm Gofal Canolraddol ffocws allweddol i sicrhau bod pobl yn gallu dychwelyd adref cyn gynted â phosibl yn dilyn triniaeth ysbyty gyda'r holl ofal a chymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'r tîm wedi parhau i arwain ar y rhyddhau i asesu llwybr 2. Sicrhawyd cyllid grant ganddynt i sefydlu nifer o swyddi ychwanegol. Mae dau aseswr gofal cymdeithasol yn asesu unigolion priodol gartref, gan ddefnyddio cymorth anffurfiol neu bontio a dilyn hwnnw o fewn wyth awr a deugain. Mae hyn yn fodd o sicrhau'r unigolyn a'r teulu y bydd unrhyw anghenion gofal a chymorth yn cael eu nodi'n gyflym, gan roi'r amser a'r lle iddynt wella mewn amgylchedd cyfarwydd. Yn ogystal â hyn, mae swydd cydgysylltydd ychwanegol wedi galluogi'r ganolfan TGCh i gael a sgrinio'r holl atgyfeiriadau i'r tîm rhyddhau ar y cyd, gan sicrhau bod pobl y gellir eu cefnogi gartref yn cael eu hadnabod yn gynharach. Mae hyn eisoes wedi cyfrannu at amseroedd aros byrrach ar gyfer asesu. Mae'r sbardun allweddol ar gyfer y gwaith arloesol hwn yn seiliedig ar ymchwil sy'n dangos bod aros yn yr ysbyty'n ddiangen yn cael effaith negyddol ar weithrediad pobl hŷn a'u gallu i adennill eu lefel flaenorol o annibyniaeth.

## Gwasanaeth gofal cartref a reolir gan y Cyngor

Estynnodd y tîm a reolir gan y cyngor ei gyfran o'r farchnad o 5% i 9% yn ystod 2019/20. Yn 2018 trosglwyddodd y gwasanaeth draw i'r CSP o Allied Health gyda 27 o gwsmeriaid yn cael 2,004 awr o ofal y mis. Erbyn haf 2020, roeddem yn cefnogi 72 o gwsmeriaid sy'n cael 4,491 awr o ofal y mis mewn dros 7,844 o ymweliadau. Yn ystod pandemig Covid, roedd y tîm mewnol yn gallu cefnogi darparwyr eraill pan oeddent yn wynebu prinder staff a phan oedd eu cynlluniau parhad busnes wedi'u disbyddu.

Roedd y gwasanaeth cartref a reolir yn uniongyrchol hefyd yn darparu cymorth o ran adleoli pobl sy'n gweithio i'r cyngor mewn rolau gofalu. Roedd y tîm yn gallu cefnogi hyfforddiant, ymsefydlu a goruchwylio pobl a oedd wedi cytuno i gael eu hadleoli i gefnogi'r sector.

### 4.2.3 Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Rhestrir ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 isod:

- Byddwn yn parhau i weithio ar gynlluniau i wella ein gwasanaeth ailalluogi. Byddwn yn gweithredu Cynllun Haverfordia i ddatblygu canolfan ragoriaeth ailalluogi. Byddwn hefyd yn archwilio amrywiaeth o opsiynau i gynyddu nifer y gwelyau ailalluogi sydd ar gael yn Sir Benfro gan adeiladu ar lwyddiant cyfleuster ailalluogi wyth gwely Martello House.
- Byddwn yn gweithio o hyd gyda phartneriaid a darparwyr gofal preswyl a gofal cartref o ran gwneud gwelliannau i'r Prosesau Rhyddhau o'r Ysbyty.
- Byddwn yn adolygu'r effaith y mae'r Tîm Gofal Canolraddol wedi'i chael ar ryddhau cleifion o'r ysbyty a'u derbyn i'r ysbyty.
- Byddwn yn parhau i dyfu a datblygu'r Gwasanaeth Cartref mewnol er mwyn lleihau rhestri aros am ofal cartref gyda'r nod o gynyddu cyfran y farchnad i ryw 20%. Yn rhan o hyn, byddwn yn adolygu ein gweithgareddau recriwtio er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyrraedd sectorau eang o'r gymuned. Byddwn hefyd yn cyflwyno cynllun prentisiaeth gyda Choleg Sir Benfro er mwyn annog pobl i rôl ofalu.

## Safon Ansawdd 3: Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

Bydd diogelu bob amser yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyngor cyfan

### 4.3.1 Beth oedden ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

#### Diogelu Rhanbarthol

Yn rhan o'n gwaith gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol rydym wedi nodi'r pedair blaenoriaeth allweddol ganlynol ar gyfer y flwyddyn nesaf:

#### Ymgysylltu'n Well

- Datblygu ymhellach y gwaith lleol a wneir mewn perthynas ag ymgysylltu, yn enwedig gydag oedolion sydd mewn perygl, yn fframwaith a dull gweithredu rhanbarthol strategol ehangach
- Atgyfnerthu cysylltiadau presennol ymhellach â phartneriaethau rhanbarthol eraill ac ymestyn hyn i gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cwblhau a lansio'r pecyn cymorth ar gyfer clybiau chwaraeon a hamdden nad oes ymlyniad â hwy

### Dysgu Systemig

- Ailgyflwyno hyfforddiant mewn perthynas â rhannu gwybodaeth i gynulleidfa ehangach, gan dargedu gwasanaethau drws ffrynt a dyletswydd ar draws y rhanbarth

### Mwy o Wybodaeth

- Datblygu model a dull cyson i rannu gwersi'n rheolaidd o ymarfer gyda rheolwyr ac ymarferwyr
- Cwblhau a gweithredu'r camau sy'n weddill o'n strategaeth Hyfforddiant Rhanbarthol Pob Oedran Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r cynllun gweithredu tair blynedd yn y flwyddyn i ddod
- Adolygu a gwella fformat cynlluniau gweithredu rhanbarthol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion
- Gwella'r amseroldeb ar gyfer cwblhau a chau cynlluniau gweithredu rhanbarthol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion

### Arwain Cryf

- Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac eirioli dros yr angen i gryfhau deddfwriaeth, polisi a chanllawiau diogelu cenedlaethol allweddol pan nodir diffygion a bylchau
- Datblygu a chyflwyno sesiynau hyfforddi amlasiantaeth i gefnogi cyhoeddi a lansio Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Roeddem hefyd yn bwriadu datblygu Tîm Diogelu Rhyddid a pharhau i hyrwyddo a datblygu gwasanaethau eiriolaeth.

## 4.3.2 I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

### Diogelu Rhanbarthol

Mae Sir Benfro yn cyfrannu'n sylweddol at waith Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWSB), ochr yn ochr â'n partneriaid o'r Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Powys), Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Addysg. Mae'r Bwrdd yn cwmpasu gwasanaethau oedolion a phlant, gydag elfen oedolion y bwrdd o'r enw CWMPAS ac elfen blant o'r enw CYSUR.

Rhestrir isod y meysydd penodol i'w hamlygu, lle mae Sir Benfro wedi cefnogi cyflenwi ei chanlyniadau allweddol ar gyfer 2020/21:

- Mae CWMPAS yn cael ei gadeirio gennyf fi sef Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai Sir Benfro.
- Mae is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant CYSUR yn cael ei gadeirio gan reolwr Gwasanaeth Diogelu Sir Benfro.
- Mae arweinwyr Diogelu Sir Benfro wedi cyfrannu at ddatblygu polisïau a phrotocolau MAWWSB, gan gynnwys Trefniadau Diogelu Rhyddid (yn lle Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid) a dogfen Trothwy diogelu oedolion.
- Mae Sir Benfro yn ymwneud yn sylweddol ag Adolygiadau Ymarfer ar draws y rhanbarth. Mae'r prosesau pwysig hyn yn helpu i nodi dysgu amlasiantaeth ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Mae cydweithwyr rhanbarthol wedi mynychu Digwyddiadau Dysgu Sir Benfro i ddysgu o'n model arfer da.
- Arweiniodd Sir Benfro ar ddatblygu strategaeth ranbarthol Cynadledda Amddiffyn Plant ar ddechrau pandemig Covid-19.
- Mae Sir Benfro wedi arwain ar ddatblygu a chyflwyno'r hyfforddiant rhanbarthol ar Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Darparwyd yr hyfforddiant ar-lein hwn gan staff Diogelu Sir Benfro yn ystod pandemig Covid-19.

## Diogelu Sir Benfro

- Yn ystod yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol (mis Tachwedd 2020) helpodd tîm Diogelu Sir Benfro i lansio'r hyfforddiant diogelu rhyngweithiol i bobl ifanc 11-25 oed ar gadw Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn Ddiogel yn Sir Benfro.
- Er mwyn gwella arferion amlasiantaethol, mae Sir Benfro'n cynnal adolygiadau ymarfer yn rheolaidd fel Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (MAPF). Llwyddodd Sir Benfro i gynnal Digwyddiad Dysgu MAPF yn ystod cyfnod Covid-19, a gafodd ymateb cadarnhaol iawn gydag adborth amlasiantaethol rhagorol.
- Mae gan Grŵp Gweithredol Lleol Sir Benfro aelodaeth ac agenda amlasiantaeth cyfunol oedolion a phlant i adlewyrchu hyn.
- Mae gan y grŵp raglen ddiogelu wedi'i datblygu a'i hintegreiddio yn ei agenda. Craffir yn rheolaidd ar themâu, gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal, Oedolion mewn Perygl a Diogelu mewn Addysg.
- Mae Sir Benfro'n chwarae rhan allweddol yn yr agenda Atal (y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch). Cadeirir Channel gan dîm Diogelu Sir Benfro, ac mae hwn yn parhau i roi cymorth i oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu denu at derfysgaeth.
- Un datblygiad diogelu allweddol arall yw grŵp Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Sir Benfro. Mae'r grŵp gwasanaethau oedolion a phlant amlasiantaethol hwn yn gweithio i

sicrhau bod gennym y gwasanaethau cywir ar waith ac mae'n cysylltu â'n cydweithwyr rhanbarthol ar agenda Siarad â Fi 2.

- Mae Sir Benfro wedi parhau i ddarparu hyfforddiant diogelu pwysig a gorfodol i'w staff yn ystod pandemig Covid-19. Mae'r modiwlau ar-lein yn cynnwys Caethwasiaeth Fodern, Ymwybyddiaeth Atal Hunanladdiad, Llinellau Sirol, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Radicaleiddio a Thrais yn erbyn menywod, trais domestig a rhywiol, Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion (gorfodol).

## Pandemig Covid-19

- Mae Sir Benfro wedi parhau i sicrhau ei bod yn cynnal ac yn cyflawni ei dyletswyddau diogelu statudol drwy gydol pandemig Covid-19.
- Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at holl is-grwpiau MAWWSB, a chyfarfodydd arweinwyr Diogelu yn ystod Covid-19. Fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol, mae Sir Benfro wedi arwain ar lawer o ffrydiau gwaith allweddol.
- Rydym wedi cynnal ein timau diogelu fel rhai cwbl weithredol drwy gydol y pandemig, gan gynnwys eu cael yn bresennol yn y swyddfa, heb unrhyw heintiau.
- Defnyddiwyd MS Teams yn effeithiol i sicrhau bod cyfathrebu, cyfarfodydd a chynadleddau wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn.
- Roedd rhai o'r heriau a gyflwynwyd yn ystod Covid-19 yn ymwneud â staff yn gorfod ynysu, yn cael amser i ffwrdd yn sâl i gefnogi eraill, yn gwarchod eu hunain, a hefyd yn pryderu ynghylch y feirws, yn enwedig yn ystod rhan gynnar y cyfnod clo/pandemig. Hefyd, roedd cyfyngiadau ar yr hyn y gallem ei wneud, a olygai fod gwasanaethau wedi'u lleihau i'r rhai critigol/statudol yn unig, felly cwtogwyd ar wasanaethau ataliol o ganlyniad. Roedd cyfyngiadau ar bobl yn symud tŷ wedi effeithio'n sylweddol ar recriwtio.

## Datblygu Tîm Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

Y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yw'r weithdrefn a ragnodwyd yn y gyfraith pan fydd angen amddifadu o'i ryddid unigolyn nad oes ganddo alluedd meddyliol i gydsynio i'w drefniadau gofal a llety er mwyn ei gadw'n ddiogel rhag niwed. Y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cymhwyso'r trefniadau diogelu hyn yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r gyfraith yn seiliedig ar Erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), sy'n diogelu'r hawl i ryddid personol ac sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu mesurau diogelu i'r rhai sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, gan gynnwys yr hawl i gael at achos barnwrol prydlon i herio cyfreithlondeb eu dal.

Yr Awdurdod fel 'corff goruchwylio' sy'n gyfrifol am gynnal ac awdurdodi'r asesiadau DoLS cymwys. Ehangwyd tîm DoLS yn 2019 mewn ymateb i'r cynnydd mewn atgyfeiriadau. Ar hyn o bryd mae gan y tîm ddau Aseswr Lles Gorau achrededig, cydlynydd gweinyddol a Rheolwr Tîm Cynorthwyol.

- Yn ystod 2017/18 ymdriniwyd â 28 o asesiadau brys a 106 o asesiadau safonol eraill.
- Yn ystod 2018/19, cwblhawyd 36 o asesiadau brys a 151 o asesiadau safonol.
- Yn 2019/2020 mae'r tîm wedi cynnal 156 o asesiadau, sef 52 o rai brys a 104 o rai safonol.
- Yn 2020/2021 mae'r tîm wedi cynnal 172 o asesiadau, sef 45 o rai brys a 127 o rai safonol.

Addasodd tîm DoLS ei ffordd o gynnal yr asesiadau mewn ymateb i bandemig COVID-19; datblygwyd ymateb rhanbarthol ynghyd â ffurflenni asesiadau interim gan ddefnyddio canllawiau gan y Llys Gwarchod a Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd asesiadau DoLS o bell ac wyneb yn wyneb pan oedd yn ddiogel gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf am fesurau diogelu DoLS yn cael y rhain mewn pryd. Mae nifer yr asesiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn yn gyflawniad sylweddol wrth weithio mewn cyfnod mor heriol a digynsail. Roedd y tîm hefyd yn cefnogi darparwyr allanol yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod cyfyngiadau ychwanegol mewn ymateb i COVID 19 wedi'u gweithredu mewn modd cyfreithlon.

Mae ôl-groniad o asesiadau o hyd, a'r tîm yn canolbwyntio ar atgyfeiriadau â blaenoriaeth uchel a brys. Mae'r tîm wedi datblygu lefel uchel o arbenigedd a gwybodaeth ynghylch cymhwyso Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ac mae'n parhau i gynnig cymorth ac arweiniad i dimau gwaith cymdeithasol eraill a darparwyr gofal.

### Cynllunio Trefniadau Amddiffyn Rhyddid i’w Gweithredu

Cafodd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 Gydsyniad Brenhinol ar 16 Mai 2019 ac mae'n cyflwyno'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, y cynllun gweinyddol newydd ar gyfer awdurdodi colli rhyddid ac sy’n disodli DoLS. Y dyddiad gweithredu llawn ar gyfer y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yw mis Ebrill 2022. Mae tîm DoLS yn parhau i ymgymryd â'i fusnes craidd o asesu atgyfeiriadau â blaenoriaeth gan gefnogi'r Awdurdod i baratoi ar gyfer gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

Mae gan yr Awdurdod gynrychiolaeth ar y grwpiau Trefniadau Amddiffyn Rhyddid cenedlaethol a rhanbarthol ac mae bellach wedi sefydlu grŵp gweithredu ar gyfer y trefniadau hynny. Mae pedwar is-grŵp ag arweinwyr a nodwyd bellach yn cael eu creu yn unol â grwpiau llywio cenedlaethol i reoli'r broses o weithredu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn llawn.

- Pobl ifanc 16 a 17 oed
- Monitro ac adrodd
- Hyfforddiant a chynllunio gweithlu
- Pontio (DoLS i’r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid)

Mae gwaith bellach wedi dechrau yn y meysydd allweddol a nodwyd i lywio cynllun gweithredu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yr Awdurdod. Mae tîm DoLS yn cefnogi drwy hybu ymwybyddiaeth, cynllunio’r gweithlu, ymarferion cwmpasu a datblygu cyrsiau hyfforddi dwy haen.

Gohiriwyd cyhoeddi’r Cod Ymarfer a Rheoliadau Cymru. Ar ôl eu cyhoeddi, bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y rheoliadau drafft a'r Cod Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para 12 wythnos, gan ganiatáu digon o amser i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys y rhai ag anableddau dysgu, ymgysylltu'n briodol. Rhagwelir yn awr y bydd y Cod a'r Rheoliadau ar waith erbyn gaeaf 2021.

## Eiriolaeth

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth TGP Cymru yn cael ei gefnogi gan Gyngor Sir Penfro. Mae'n wasanaeth am ddim i blant a phobl ifanc sydd rhwng 0 a 25 oed ac sydd:

- yn blentyn sy'n derbyn gofal
- yn blentyn nad yw'n derbyn gofal ond a allai fod ag anghenion gofal a chymorth;
- yn blentyn y mae Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig mewn grym mewn perthynas ag ef/hi
- yn blentyn a fabwysiadwyd neu’n blentyn a allai gael ei fabwysiadu
- yn Ymadawr Gofal.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ein pobl ifanc drwy:

- wrando arnynt a'u safbwynt
- rhoi gwybod iddynt am eu hawliau
- eu helpu i leisio eu barn a sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed
- eu helpu i ddatrys pethau gyda gweithwyr/gofalwyr
- rhoi cymorth iddynt a'u helpu i leisio eu barn mewn cyfarfodydd
- eu grymuso i eirioli drostynt eu hunain

Caiff gwasanaethau eu hyrwyddo i bobl ifanc gan eu gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr a gweithwyr cymorth yn ogystal â thros y fewnrwyd.

Darperir gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer **oedolion** gan Ganolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol.

Mae pobl yn gymwys i gael eiriolaeth os ydynt dros 18 oed ac:

- os oes ganddynt anabledd dysgu
- os oes ganddynt anabledd corfforol
- os oes nam ar eu synhwyrau
- os ydynt yn ofalwyr
- os ydynt yn oedolion sy'n agored i niwed oherwydd oedran, cyflwr iechyd neu angen a aseswyd (gan gynnwys awtistiaeth, ASD, dementia, materion iechyd meddwl ac anaf i'r ymennydd)

### 4.3.3 Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Byddwn yn adolygu ein timau diogelu oedolion a phlant gyda'r bwriad o weithredu'r dull integredig ymhellach a darparu gwasanaeth mwy cadarn, effeithlon ac effeithiol.
- Byddwn yn ystyried cyflwyno rôl swyddog adolygu annibynnol ar gyfer y timau oedolion yn dilyn y model a ddefnyddir yn y gwasanaethau i blant, a dysgu o'r treial yn y gwasanaethau i oedolion. Daeth y treial hwn o gamau a nodwyd mewn adolygiad ymarfer oedolion.

## Safon Ansawdd 4: Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

### 4.4.1 Beth oedden ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

- Roeddem yn bwriadu cyd-gynhyrchu model arloesol o gyfleoedd dydd, gyda mwy o ffocws ar yr unigolyn ac yn darparu canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Roeddem hefyd yn bwriadu gweithredu lleoliadau coleg preswyl yn Sir Benfro er mwyn i bobl aros yn eu cymuned leol.

### 4.4.2 I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

#### Trawsnewid Darpariaeth Canolfannau Dydd

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus helaeth er mwyn cynhyrchu model newydd o gyfleoedd dydd. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid allweddol fel Peopletoo, y Bwrdd Partneriaeth Anabledd Dysgu a Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu i nodi model darpariaeth 'prif ganolfan a lloerennau'.

Ym mis Mawrth 2020 bu'n rhaid i ni gau ein holl ganolfannau cyfleoedd dydd oherwydd yr ymateb brys i'r pandemig. Er mwyn parhau i gefnogi ein defnyddwyr gwasanaeth, gweithiodd y timau'n greadigol ochr yn ochr â sefydliadau fel Pobl yn Gyntaf Sir Benfro i ddarparu gwasanaeth allgymorth. Mae cynnal cyswllt â phobl dros y ffôn, cwisiau digidol, pecynnau crefft a darparu rhaglenni gweithgareddau wedi cadw pobl yn cyfranogi, ac wedi darparu syniadau ar gyfer y cynigion gwasanaeth yn y dyfodol.

Drwy ymgysylltu'n barhaus, mae'r model yn cael ei wella i feithrin mwy o gysylltiadau rhwng cymunedau, darparwyr a gomisiynir a gwasanaethau mewnol. Mae'r cynllun gwell yn ystyried creu 'Biwro' ar gyfer Cyfleoedd Dydd fel 'siop un stop' ymatebol i ysgogi gweithgareddau newydd i'r defnyddwyr gwasanaeth. Y nod yw creu gwasanaeth hyblyg sy'n ei gwneud yn haws i unigolion newid yr hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud.

Bydd y model, a ariennir drwy fecanwaith talu hyblyg newydd, yn rhoi dewis mwy amrywiol i unigolion a mwy o reolaeth ar eu cymorth.

### Datblygiadau Coleg Preswyl

Sicrhawyd Cyllid Gofal Canolraddol gennym i ddatblygu pedair fflat, sy'n darparu llety â chymorth mewn datblygiad newydd yn Johnston. Dechreuodd y gwaith ar y datblygiad ym mis Tachwedd 2019. Byddwn yn archwilio opsiynau llety eraill i gefnogi ein cynnig addysgol lleol yng Ngholeg Sir Benfro gyda'r bwriad o gadw defnyddwyr gwasanaeth yn eu cymunedau lleol a lleihau nifer y lleoliadau addysgol preswyl y tu allan i'r Sir. Mewn partneriaeth â'r coleg rydym wedi datblygu cwricwlwm hyblyg addas.

### 4.4.3 Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Byddwn yn parhau i weithio ar wella ein cyfleoedd dydd. Yn rhan o'n cynnig cyfleoedd dydd, rydym yn adolygu modelau darparu gwasanaethau. Archwilir cysyniad biwro cyfleoedd dydd a fydd yn galluogi pobl i gael at ystod eang o weithgareddau. Ein nod yw ehangu'r cynnig i leihau'r defnydd o wasanaethau dydd mewn adeilad a symud tuag at well defnydd o gyfleusterau yn y gymuned.

## Safon Ansawdd 5: Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.

### 4.5.1 Beth oedden ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

- Roeddem yn bwriadu gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i ystyried cyfleoedd yn y rhanbarth i ddatblygu cyfleuster anghenion cymhleth rhanbarthol.
- Roeddem yn bwriadu defnyddio cyllid ICF i agor canolfan asesu mam a baban ranbarthol.
- Roeddem yn bwriadu gweithredu strategaeth lleihau Plant sy'n Derbyn Gofal fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru.
- Roeddem yn bwriadu parhau i gefnogi ein gofalwyr, gan gydnabod y rôl werthfawr y maent yn ei chwarae.

### 4.5.2 I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

#### Cyfleuster Anghenion Cymhleth Rhanbarthol

Drafftiwyd cynnig gwreiddiol ar gyfer y cyfleuster anghenion cymhleth ym mis Hydref 2019. Dros y 18 mis canlynol mae hwn wedi esblygu'n fodel gofal preswyl 'Prif Ganolfan a Lloerennau'. Mae hwn yn cynnwys uned breswyl ranbarthol ganolog ar gyfer plant sydd â'r tariff uchaf o anghenion cymhleth (efallai'n camu i lawr o ofal diogel neu’n atal mynediad i ofal diogel) i'w defnyddio gan y tri awdurdod lleol i gyd, ynghyd â phob awdurdod lleol partner yn cael ei uned leol ei hun ar gyfer camu pobl ifanc i lawr o'r ganolfan ganolog. Darperir gofal ar sail a hysbysir gan drawma, ac fe’i darperir ar y cyd â chydweithwyr o CAMHS a fydd yn darparu cymorth a therapi arbenigol i blant a osodir yn yr unedau. Bydd y tîm hwn o staff CAMHS hefyd yn darparu ymyriad ataliol yn y gymuned er mwyn ceisio osgoi derbyn i ofal preswyl. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer plant 11-18 oed. Er mwyn symud ymlaen ar y prosiect mae'r partneriaid wedi gwneud y gwaith canlynol:

- Sefydlu grŵp llywio ar gyfer y cyfleuster rhanbarthol, sy'n cynnwys penaethiaid gwasanaeth o’r partneriaid allweddol, gyda chefnogaeth cydweithwyr o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Drafftio cytundebau cyfreithiol sy'n ymwneud â pherchnogaeth ar yr uned hyb rhanbarthol, cyfrifoldeb amdani a'r defnydd ohoni.
- Sefydlu Panel Anghenion Cymhleth Rhanbarthol i ategu paneli lleol presennol, a gwella arferion comisiynu'r rhanbarthau ynghyd â rhannu gwybodaeth am ddarparwyr a'r farchnad yn ehangach. Roedd sefydlu'r grŵp hwn yn cynnwys cynnal archwiliad o'r arferion comisiynu presennol ar draws y rhanbarth a drafftio cylch gorchwyl ar gyfer y panel rhanbarthol. Disgwylir i'r panel gynnal ei gyfarfod cyntaf yn ystod haf 2021.

## Uned Rhieni a Babanod

Mae tŷ a brynwyd yn flaenorol fel Uned Rhieni a Babanod wedi cael ei ddefnyddio'n fwy eang yn y cyfamser fel adnodd cefnogol ac ataliol i blant a theuluoedd mewn argyfwng. Y cynllun yn wreiddiol oedd datblygu uned asesu breswyl ar gyfer rhieni a phlant, ond diwygiwyd hyn a'r bwriad bellach yw ei ddatblygu'n adnodd dydd ar gyfer cymorth asesu ac amser teulu, gydag atal wrth wraidd ei weithrediadau. Mae hyn yn gweddu i un o elfennau allweddol strategaeth ehangach yr awdurdod ar gyfer lleihau nifer y plant dan ei ofal, a chaiff ei ddatblygu'n wasanaeth mwy strwythuredig yn y 12 mis nesaf, pan fydd y gwaith adeiladu ac atgyweirio gofynnol wedi'i wneud ar yr eiddo.

## Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal

Mae Gwasanaethau Plant Sir Benfro bellach wedi lansio ei strategaeth lleihau tair blynedd. Dyma elfennau allweddol y strategaeth hon, a gynlluniwyd i atal plant rhag dod i ofal, ar yr un pryd â chefnogi plant i ddychwelyd adref pan fydd yn ddiogel iddynt wneud hynny:

- Mae ein Tîm Rhianta Corfforaethol yn gweithio gyda theuluoedd a phlant i ddiddymu gorchmynion gofal pan fo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Penodwyd dau weithiwr cymdeithasol profiadol rhan-amser er mwyn delio ag ôl-groniad o achosion sy'n addas i ddiddymu'r gorchmynion gofal. Byddwn yn defnyddio protocol diddymu cyflymach er mwyn cael y materion hyn gerbron y llys cyn gynted â phosibl.
- Mae grŵp rheoli bellach wedi'i sefydlu i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer Gwarcheidwaid Arbennig, i wella'r ddarpariaeth o becynnau cymorth a gwasanaethau i ofalwyr plant sy'n destun Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig (SGO). Bydd hyn yn annog mwy o ofalwyr i ddilyn gorchmynion o'r fath, ac yn rhoi hyder i CAFCASS a'r farnwriaeth fod hwn yn opsiwn a ffefrir dros osod plentyn gyda pherthynas ar orchymyn gofal. Bydd hyn yn golygu y bydd llai o blant yng ngofal yr awdurdod lleol ac yn hytrach bydd ganddynt drefniadau byw parhaol gydag aelodau o'r teulu, heb fod angen ymyriad ymwthiol gan y wladwriaeth.
- Mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu sefydliad elusennol i gynnal Cynadledda Grŵp Teuluol ar ei ran, yn dilyn dyfarnu arian grant gan Lywodraeth Cymru at y diben penodol hwn. Bydd hyn yn golygu bod Tros Gynnal Plant yn cyflwyno'r cynadleddau hyn fel gweithgaredd ataliol allweddol, yn ystod y ddwy flynedd nesaf.
- Bydd lansio ymgyrch recriwtio ac asesu newydd ar gyfer gofalwyr maeth, yn seiliedig ar frand cenedlaethol 'Maethu Cymru / Foster Wales', ar 15 Mehefin 2021, yn gweld Sir Benfro'n ceisio cynyddu ei chyflenwad o ofalwyr mewnol, gan ddarparu dewis o leoliadau i blant felly, yn agos i'w cartrefi, gyda gofalwyr lleol sydd â diddordeb gwirioneddol a buddiol mewn gofalu am blant a phobl ifanc. Bydd hyn yn lleihau'r angen i brynu lleoliadau drud gan ddarparwyr y sector preifat, a bydd yn lleihau nifer y plant y mae'n rhaid gofalu amdanynt i ffwrdd o Sir Benfro oherwydd prinder lleoliadau lleol.

## Gofalwyr

Drwy gydol 2020/21 buom yn gweithio i gefnogi ein gofalwyr. Ar gyfer gofalwyr oedolion cafwyd nifer o newidiadau ac ychwanegiadau i wasanaethau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi golygu bod gofyn ailfodelu gwasanaethau a newid eu ffocws. Mewn achosion eraill, datblygwyd gwasanaethau newydd penodol i ymateb i anghenion a nodwyd.

Mae newidiadau penodol i wasanaethau a gefnogir gan CSP i Ofalwyr wedi cynnwys:

- Mae'r holl grwpiau a gwasanaethau a gefnogir gan CSP wedi ailfodelu eu gwasanaethau i fod mewn cysylltiad â'u grŵp cleientiaid er nad ydynt yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb
- Mae Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr Sir Benfro (PCISS) wedi ehangu ei wasanaeth cymorth dros y ffôn, yn estyn ei oriau ac yn darparu cymorth ar benwythnosau
- Mae staff Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a CSP mewn cysylltiad rheolaidd â grwpiau gofalwyr a sefydliadau gofalwyr i gael adborth ar faterion allweddol
- Ynghyd â'r Bwrdd Iechyd, rydym wedi cynhyrchu gwybodaeth ychwanegol i bawb sy'n defnyddio eu gwasanaethau a'u gofalwyr ar y cymorth sydd ar gael, gan gynnwys yr Hyb Cymunedol

Isod ceir rhestr o wahanol wasanaethau a newidiadau sydd wedi'u gwneud:

| Sefydliad | Gwasanaeth â ffocws newydd |
|---|---|
| Gwasanaeth Gofal Amgen Tymor Byr Hafal | • Gwasanaeth yn parhau am ei fod ar gael nawr i bob gofalwr a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth cyn COVID<br>• Cyswllt a chymorth dros y ffôn i'r rhai sydd wedi gwrthod gwasanaeth yn fewnol |
| PCISS | • Estynnwyd gwasanaeth cymorth dros y ffôn i gynnwys oriau hirach a phenwythnosau<br>• Postio hysbysiadau argyfwng newydd i bob gofalwr<br>• Cymorth cyswllt dros y ffôn i ofalwyr ar Gronfa Ddata a sefydlwyd |
| MIND | • Grŵp cymorth ar-lein<br>• Cymorth dros y ffôn gyda'r holl aelodau'n cael galwadau wythnosol |
| Grwpiau Gofalwyr | • Taflen newyddion wythnosol<br>• Galwadau parhaus<br>• Arweinwyr grwpiau gofalwyr yn cysylltu'n wythnosol ag aelodau'r grŵp |

| Sefydliad | Gwasanaeth â ffocws newydd |
|---|---|
| Gweithredu dros Blant | • Galwadau ffôn a/neu fideo Skype rheolaidd i gadw cysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth<br>• Diweddariadau rheolaidd ar ein tudalen Facebook gan gynnwys rhannu dolenni a'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Llywodraeth.<br>• Diweddariadau a thasgau lles ac ymwybyddiaeth ofalgar i'n Gofalwyr Ifanc eu cwblhau.<br>• Parhau i dderbyn atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill a hunanatgyfeiriadau.<br>• Rhoddwyd talebau lles i bob Gofalwr Ifanc |
| Ceir i Ofalwyr | • Gwasanaeth gyrru wedi'i atal ond gwasanaeth dosbarthu presgripsiynau a bwyd yn ei le |
| Cymorth Parkinson's | • Cymorth cyswllt dros y ffôn yn lle cyfarfodydd wythnosol |
| Hafal Seibiant | • Galwadau ffôn dyddiol o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Clwb Sadwrn Hafal | • Galwad cyswllt wythnosol |

### 4.5.3 Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Er mwyn cefnogi'r rôl hanfodol y mae gofalwyr yn ei gwneud yn Sir Benfro byddwn yn ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol yn 2021/22

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu model ymhellach i ddatblygu gwasanaethau a chyfleusterau anghenion cymhleth ar draws y rhanbarth.
- Nodi cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth llety sydd ar gael i Blant sy'n derbyn gofal ac Ymadawyr Gofal.
- Gwell recriwtio gofalwyr maeth i sicrhau bod plant yn cael eu gosod yn agosach i'w cartrefi, gyda gofalwyr lleol, a bod lleoliadau allanol drutach a phellach yn cael eu defnyddio llai.
- Archwilio cyfleoedd pellach fel y gall pobl elwa ar leoliadau collage byw â chymorth preswyl yn Sir Benfro.
- Cefnogi gofalwyr yn eu rôl drwy ystod eang o fentrau.
- Gweithredu canfyddiadau ein hadolygiad o ddarpariaeth seibiant
- Gweithredu rhaglen Cynadledda Grŵp Teulu (drwy gontract dwy flynedd gyda Tros Gynnal Plant Cymru)

## Safon Ansawdd 6: Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

### 4.6.1 Beth oedden ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

Rhestrir isod y gweithgareddau allweddol yr oeddem yn bwriadu eu gwneud yn ystod 2020/21.

- Gweithredu cynllun llety lleol sy'n gysylltiedig â rhaglen gyfalaf ICF.
- Adolygu ein Cymorth a'n Cyfleusterau Digartrefedd
- Parhau i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth â chymorth i bobl ag anableddau.
- Cyflenwi ein Strategaeth Anabledd Dysgu a lansio ein Siarter Anabledd Dysgu.

### 4.6.2 I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

#### Adolygiad o Gyfleusterau a Gwasanaethau Digartrefedd

Yn ystod 2020 dechreuwyd ar adolygiad o'n darpariaeth a'n gwasanaethau i'r digartref. Cyflymwyd yr adolygiad ar ddechrau mis Mawrth pan ddaeth yn amlwg na fyddai'r cyfleuster presennol yn addas i letya pobl yn ystod y brigiad o achosion COVID oherwydd bod cyfleusterau'n cael eu rhannu yno.

Mae hostel Riverside i'r digartref wedi'i chau. Rhoddwyd ystod o ddarpariaeth amgen i'r digartref ar waith yn ystod 2020/21. Sefydlwyd cyfleuster cymorth i'r digartref gennym ar gyfer pobl sengl a oedd yn cynnwys unedau hunangynhwysol unigol i'w hatal rhag rhannu cyfleusterau. Sicrhawyd hefyd fod pob preswylydd yn gallu cael at ystod eang o weithwyr cymorth yn y cyfleuster i'w helpu gydag ystod eang o faterion gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, cyllidebu a chael gafael ar fudd-daliadau.

Crëwyd hostel i deuluoedd hefyd o floc o fflatiau a oedd hefyd yn sicrhau bod gan bob teulu ei gyfleuster hunangynhwysol ei hun ond bod cymorth wrth law gan y gwasanaeth digartrefedd pe bai ei angen.

Mae'r tîm hefyd wedi archwilio defnyddio llety pod i'r digartref a allai ddarparu llety dros dro i'r bobl y mae ei angen arnynt fwyaf.

Gwnaeth yr adolygiad o'r ddarpariaeth nifer o argymhellion hefyd i wella'r modd y darperir gwasanaethau a lleihau risg digartrefedd.

- Hyfforddiant gorfodol i'r holl staff mewn gofal cymdeithasol yn benodol ar Ddeddf Tai 2014. Nod yr hyfforddiant hwn fyddai cefnogi pob gweithiwr proffesiynol i fod yn ymwybodol o ddyletswyddau'r awdurdod lleol mewn perthynas ag anghenion tai person a deall y dyletswyddau hynny. Byddai'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys manylion penodol ynghylch yr hyn y gall yr awdurdod lleol ei ddarparu, a’r hyn na all ei ddarparu, i unigolion a theuluoedd er mwyn sicrhau bod dull corfforaethol o gefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd neu sy'n debygol o fod mewn perygl o ddigartrefedd.
- Cyfarfodydd chwarterol â chynrychiolwyr o'r holl randdeiliaid sy'n cynnwys asiantaethau gofal cymdeithasol, iechyd a'r sector gwirfoddol er mwyn nodi unigolion a theuluoedd risg uchel fel y gellir gwneud penderfyniad ar y ffordd orau o gefnogi'r rhai sydd mewn perygl i ddarparu cymorth ymyrraeth gynnar. Ar hyn o bryd mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn perthynas â phobl ifanc y mae'r awdurdod lleol wedi rhoi gofal iddynt yn flaenorol.
- Gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng gofal cymdeithasol a thai. Gellid gwella'r llinellau cyfathrebu hyn yn fawr drwy'r cyfarfodydd chwarterol a argymhellwyd eisoes, a’r tîm gofal cymdeithasol a’r tîm iechyd meddwl cymunedol yn cynnwys ei gilydd mewn trafodaethau a chyfarfodydd achos lle mae'n debygol bod y ddau wasanaeth yn cymryd rhan ac yn darparu cymorth. Byddai hefyd o fudd i unigolion allweddol yn nhîm presennol y prosiect tai gael mynediad darllen yn unig i'r gronfa ddata a ddefnyddir mewn iechyd meddwl i gefnogi'r gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr tai proffesiynol i gael darlun clir o gefndiroedd ac anghenion iechyd meddwl unigolyn.
- Mae'r ymchwil wedi tynnu sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r unigolion sydd wedi cyflwyno'n ddigartref dro ar ôl tro dros gyfnod 2017 - 2020 wedi dioddef trawma sylweddol yn eu bywydau nad aethpwyd i’r afael yn llawn ag ef. Argymhellir bod unigolion a nodir yn gallu cael cymorth cwnsela am ddim er mwyn eu cefnogi'n therapiwtig i brosesu’r trawma y maent wedi'i ddioddef er mwyn cefnogi eu hadferiad a'u newid cadarnhaol. Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gyda phreswylwyr sydd yn llety dros dro'r awdurdod lleol.
- Yr adran dai i gael tîm arbenigol sydd â chefndir gofal cymdeithasol er mwyn gallu trafod unigolion a theuluoedd yn uniongyrchol gyda nhw. Os yw'n briodol, byddai'r tîm wedyn yn gweithio'n ddwys gyda'r unigolion a'r teuluoedd hyn er mwyn eu cefnogi drwy'r cyfnodau anodd hyn yn eu bywydau gan ddefnyddio'r model Tai yn gyntaf. Byddai'r gwaith hwn er mwyn naill ai atal achos o ddigartrefedd drwy sicrhau newid cadarnhaol neu eu cefnogi pan fyddant yn cael llety sefydlog i leihau'r risg y bydd digartrefedd yn digwydd eto.
- Darparu adroddiadau misol ar y gwaith y mae'r tîm tai integredig yn ei wneud er mwyn mesur llwyddiant yr ymyriadau a hefyd nodi unrhyw faterion y mae angen eu datblygu ymhellach.

## Cyflogaeth â Chymorth

Mae Norman Industries a Gweithffyrdd yn cefnogi pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd tymor hir i gael at waith cyflogedig. Rhoir cyfleoedd i weithio i dros 65 o bobl. Mae gan lawer o'r bobl hyn anabledd dysgu.

O gyflogi 25 o bobl ag anabledd yn 2017 mae Cyngor Sir Penfro bellach yn cyflogi dros 65 o bobl ag anabledd yn ei raglen cyflogaeth â chymorth. Yn rhan o broses ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr i ddatblygu Strategaeth Anabledd Dysgu, dywedodd pobl ag anabledd dysgu ac awtistiaeth wrthym eu bod am gael mwy o gyfleoedd am gyflogaeth â thâl. Y cyfle cyflogaeth cyntaf oedd cyflogi Hyrwyddwyr Anableddau Dysgu i weithio gyda swyddogion yng Nghyngor Sir Penfro a phartneriaid yn y trydydd sector i ddatblygu a gweithredu'r camau gweithredu yn erbyn y strategaeth.

Mae Rachel (Hyrwyddwr Anableddau Dysgu) wedi gweithio ar draws yr awdurdod i ymgorffori cynhwysiant wrth recriwtio nid yn unig yn ein rhaglen a gefnogir ond hefyd ar draws yr awdurdod lleol cyfan. Mae'r gwaith y mae Rachel wedi'i wneud wedi arwain at wneud Cyngor Sir Penfro yr unig awdurdod lleol yng Nghymru i fod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

Un o'n prosiectau cyntaf oedd datblygu caffi sy'n cael ei weithredu gan bobl ag anabledd dysgu. Ffurfiodd y Caffi sylfaen model cynaliadwy ar gyfer cyflogaeth â chymorth sydd wedi parhau i dyfu drwy gydol 2020 er inni fod mewn pandemig. Yn ystod 2020, rydym wedi ychwanegu uwchgylchu dodrefn a llyfrgell o bethau, melin lifio ac wedi cymryd caffi arall drosodd gyda chaffi arall yn agor yn yr haf.

Mae'r rhaglen yn arloesol nid am fod elfennau unigol yn newydd neu heb eu profi ond am ei bod wedi dwyn ynghyd nifer o ddulliau sicr mewn rhaglen strategol sy'n cydredeg amcanion ar draws nifer o agendâu. Mae'r rhaglen yn bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, nid gofal cymdeithasol yn unig ond ein hadrannau adfywio, addysg a hamdden, ein bwrdd iechyd lleol a phartneriaid allweddol yn y trydydd sector. Mae'r rhaglen yn elfen allweddol o'n cynllun gweithredu cydraddoldeb, gan sbarduno cynnydd mewn cyflogaeth anabledd ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'r tîm wedi cefnogi pobl i weithio gartref neu weithio'n ddiogel yn ein prosiectau gweithgynhyrchu ac adeiladu. Mae pobl a gwasanaethau wedi addasu a buont yn rhan annatod o’r ymateb i Covid: mae'r ffatri wedi gwneud cannoedd o sgriniau Covid ac rydym wedi cyflenwi cyfarpar diogelu personol i gartrefi gofal. Byddai wedi bod yn symlach rhoi ein staff anabl ar ffyrlo ond ni fuasai hyn yn gynhwysol.

## Strategaeth Anabledd Dysgu

Mae'r diagram Cylch Cymorth isod yn dangos ffocws allweddol gwaith y Strategaeth Anabledd Dysgu yn ystod 2020/21.

Bu’n flwyddyn heriol eleni i gymryd camau gweithredu oherwydd pandemig Covid, ond rwyf wedi rhestru rhai o'n cyflawniadau allweddol isod:

- Wedi’i arwain gan **James Dash – Hyrwyddwr AD – Cyfathrebu,** mae’r **Dream Team** yn siarad dros bobl ag anabledd dysgu. Grŵp o bobl ag anabledd dysgu ydyw o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf mae'r Dream Team wedi parhau i gyfarfod yn ddigidol a bu’n helpu pobl ag Anabledd Dysgu i oresgyn problemau a wynebwyd yn sgil cyfyngiadau ar wasanaethau

- Mae'r Hyrwyddwyr AD wedi parhau i weithio drwy gydol y flwyddyn o gartref.
    - Bu **Rachel Bailey – Hyrwyddwr AD – Cyflogaeth** yn datblygu adnoddau i gefnogi cyflogwyr i gyflogi mwy o bobl ag anabledd.
    - Mae **Rhys Eynon – Hyrwyddwr AD – Cymuned** wedi parhau i weithio gyda PAVS i ddatblygu adnoddau a chysylltiadau yn y trydydd sector.
    - Bu **Lucy Hinksman – Hyrwyddwr AD – Hawdd ei Ddeall** yn ein helpu i ddatblygu ystod o ddogfennau hawdd eu deall. Mae hyn wedi cynnwys fersiwn hawdd ei deall o Strategaeth Cydraddoldeb CSP.
    - Bu **James Tyler – Hyrwyddwr AD – Trafnidiaeth** yn ystyried sut mae'r pandemig wedi effeithio ar ddefnydd pobl o drafnidiaeth gyhoeddus. Creodd rai dogfennau addysgiadol iawn i helpu pobl i ddeall sut mae pethau'n wahanol erbyn hyn.

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer y Siarter AD bellach yn cael ei adolygu. Gwnaethom lawer o gynnydd a chwblhawyd nifer o'r argymhellion. Yng ngoleuni'r hyn sydd wedi digwydd dros y 18 mis diwethaf, mae rhai argymhellion wedi dyddio a bydd angen eu diwygio.

## Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i bob rhan o waith Cyngor a golygant y gall trigolion ledled Cymru ddisgwyl yr un dull o gymhwyso'r Gymraeg mewn gwasanaethau ledled y wlad, i sicrhau bod yr iaith yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg a bod pob Cyngor yn cynnig cyfle i bobl gael eu gwasanaethau gennym, yn ogystal â'r rhai a ariennir gennym, yn Gymraeg.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, bu gwasanaethau’n ymgorffori prosesau newydd i fodloni'r gofynion. Erbyn hyn mae cyfeirlyfr o staff sy'n siarad Cymraeg sy'n cael ei ddiweddaru drwy'r system Adnoddau Dynol.

Mae'r holl ddeunydd a gyhoeddir ar gael i drigolion y Gymraeg a'r Saesneg, e.e. Gwefan y Cyngor, papurau Pwyllgor, Hysbysebion Swydd a Chyfryngau Cymdeithasol.

Rydym yn parhau i weithio ar weithredu'r cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' mewn ymateb i fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gan adeiladu ar adroddiad blynyddol y llynedd rydym yn parhau i ddatblygu ein cynnig gweithredol o gyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg, hyrwyddo a hybu ymwybyddiaeth am yr iaith ymhlith staff a darparu cyfleoedd i weithwyr ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

### 4.6.3 Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

#### Prosiect Grantiau Adeiladu Gofalwyr Maeth

Byddwn yn gweithredu prosiect i ystyried datblygu polisi a fydd yn galluogi’r Awdurdod Lleol i ddarparu grantiau i ofalwyr maeth at estyniadau a gwelliannau i'r cartref, er mwyn cael mwy o le ar gyfer lleoliadau neu ganiatáu gofal i bobl ifanc benodol, gan osgoi'r angen am leoliadau allanol arbenigol drutach.

Byddwn yn parhau i ddatblygu llety â chymorth a chyfleoedd cyflogaeth â chymorth arloesol. Mae parhau i weithredu'r Strategaeth Anabledd Dysgu gyda'n Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu hefyd yn flaenoriaeth allweddol i ni.

# 5. Sut Rydym yn Gwneud yr Hyn a Wnawn

## 5.1 Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gan y gweithlu gofal cymdeithasol yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni ein hamcanion busnes a bod defnyddwyr gwasanaeth yn Sir Benfro yn cael eu cefnogi gan staff medrus a chymwys. Ers dechrau'r pandemig bu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ymateb brys ar waith ar gyfer staff mewnol ac allanol, gan gynnwys y rheini wedi'u hadleoli a'u recriwtio dros dro i rolau gofal, ac rydym wedi parhau i addasu ac ehangu ein cynnig hyfforddi i sicrhau bod y gweithlu'n gallu cael at y cymwysterau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i fodloni gofynion cofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus.

Crëwyd cysylltiadau cryf â'n cydweithwyr Dysgu a Datblygu Corfforaethol gan gydweithio drwy gydol y pandemig i sicrhau bod hyfforddiant e-ddysgu perthnasol, cyfredol a hygyrch ar gael er enghraifft, lansiwyd llinellau sirol a digartrefedd ymhlith pobl ifanc a chydweithiwyd ar gynllun hyfforddi hanfodol cynhwysfawr ar gyfer adleoli staff a recriwtiaid newydd i rolau gofal. Mae'r holl staff sydd newydd eu penodi yn mynychu Croeso Corfforaethol ac mae'r broses o gynefino staff newydd yn cael ei chefnogi gan y llyfryn cynefino Croeso Corfforaethol a Gofal Cymdeithasol a ddiwygiwyd yn benodol i ddiwallu anghenion staff yn ystod y pandemig. Er mwyn rhoi i'n goruchwylwyr a'n rheolwyr y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i reoli yn yr amseroedd ansicr hyn, caiff staff gofal cymdeithasol eu cyfeirio at y Rhaglen Datblygu Arweinwyr a Rheolwyr Corfforaethol cyn iddynt fynd ymlaen i astudio cymwysterau rheoli gofal cymdeithasol ffurfiol.

Aeth rhaglen hyfforddi datblygiad proffesiynol ar gyfer comisiynu staff a ddatblygwyd ar y cyd â Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru ar gyfer y rhanbarth yn ei blaen gan ddefnyddio dull cwbl ddigidol. Cydweithiodd y Bartneriaeth hefyd ar ddarparu pump gweminar i reolwyr cofrestredig gyda thema recriwtio wedi'i chynllunio i ddeall anghenion darparwyr ochr yn ochr â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mynychodd dros 100 o reolwyr cofrestredig y gweminarau hyn ar draws y rhanbarth.

Mae angen llwybrau gyrfa da mewn gofal cartref a gofal iechyd, ac mae angen i lwybrau fod yr un mor ddeniadol i weithwyr sy'n fodlon yn eu rôl bresennol â'r rhai sy'n chwilio am ddilyniant i rôl uwch. Mae gwaith datblygu'r llwybrau hyn wedi hen ddechrau, ac mae'n flaenoriaeth allweddol i ni o hyd. Bu defnyddio cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft Twitter a Facebook, yn llwyfan amhrisiadwy a llwyddiannus ar gyfer hysbysebu a hyrwyddo ein gwasanaethau yn ystod Covid-19, ac mae'n parhau i fod yn ddull llwyddiannus o gyfathrebu â'n staff. O hyn ymlaen byddwn yn parhau i ymgysylltu â staff, gan ddysgu'r ffordd orau o wneud hyn o'r adborth a gawn.

Bydd y Cyfarwyddwr yn parhau i gyfarfod â'r holl recriwtiaid newydd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o'u cyfnod cynefino i'r Gyfarwyddiaeth ac ymgysylltu â staff drwy gyfarfodydd tîm gyda'r nod o wella cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a gweithwyr rheng flaen.

Datblygwyd micro-safle pwrpasol i recriwtio gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol ar ein gwefan eleni a fydd yn sicr o fod yn adnodd pwysig i geisio denu darpar recriwtiaid ar draws y sector.

### 5.1.1 Beth oedden ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

Isod ceir rhestr o'r camau allweddol yr oeddem yn bwriadu eu cymryd y llynedd.

- Oherwydd y gofynion cadw pellter cymdeithasol a osodwyd i wrthsefyll lledaeniad Covid-19, canolbwyntiwyd ar ddulliau darparu amgen fel Hysbysu Gofal Cymunedol a datblygu ein Platfform Dysgu Rhithwir ein hunain i ddatblygu llawer o adnoddau digidol newydd ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd pwnc.
- Darparu ystod o hyfforddiant sgiliau iechyd meddwl i arfogi'r gweithlu i sicrhau arfer gorau.
- Cefnogi staff perthnasol i fod yn ddigon medrus i ymgymryd â Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DOLS), Asesiadau Lles Gorau, Amddiffyn Rhyddid, Trefniadau Diogelu ac Asesiadau Galluedd Meddyliol Cymeradwy.
- Darparu hyfforddiant effeithiol mewn sgiliau cofnodi achosion.
- Datblygu cyrsiau e-ddysgu ar gyfer sgiliau 'gofal uniongyrchol' mwy cyffredinol.
- Cwrs sgiliau goruchwylio ar gyfer aelodau newydd o staff.
- Hyfforddiant sgiliau llys i grwpiau staff perthnasol.
- Iechyd meddwl a phobl ifanc – sut i gefnogi'r rheini ag anhwylderau bwyta, diffyg hunan-barch, ac ati.
- Darparu cyfres o gyrsiau hyfforddi i staff ailalluogi a darparwyr gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth gofal fwy effeithlon.

### 5.1.2 I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth a wnaethom?

Mewn ymateb i bandemig parhaus Covid19, blaenoriaethwyd swyddogaethau'r tîm hyfforddi o’r newydd, gyda llawer o aelodau'r tîm yn cefnogi'r adleoli cyflym a recriwtiaid newydd i wasanaethau rheng flaen. Ar ddechrau'r cyfnod clo, ataliwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb ac fe'i haddaswyd a'i hadferwyd yn ddiweddarach drwy ddulliau cyflenwi 'ar-lein' ac amrywiaeth o adnoddau digidol. Parhaodd hyfforddiant hanfodol wyneb yn wyneb fel Codi a Chario, rhaglen Hyfforddi’r Hyfforddwr Codi a Chario, a Chymorth Cyntaf Brys gyda mesurau caeth ar waith o ran cyfarpar diogelu personol, asesu a rheoli risg.

Er mwyn galluogi'r gweithlu i fodloni'r gofyniad rheoliadol ar gyfer cymhwyso a chofrestru, cyflenwyd cymwysterau ar bob lefel yn ddigidol. Fodd bynnag, roedd llai o ymgeiswyr ar gael oherwydd pwysau gwaith y pandemig. Er gwaethaf hyn, ariannwyd 100 o bobl i astudio tuag at gymwysterau sydd eu hangen i gofrestru ac i ddangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Rhestrir y gweithgareddau allweddol a gynhaliwyd y llynedd isod:

- Datblygwyd cynllun peilot hyfforddiant recriwtio cyflym ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol y llynedd mewn cydweithrediad â Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Benfro, gan ddefnyddio model sefydlu iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd Gorllewin Cymru i gefnogi ymgyrch recriwtio genedlaethol 'Gofalwn.Cymru'. Mae gwerthusiad llawn ar fin digwydd gan SCIE, ond mae'r adborth cychwynnol gan ddysgwyr yn dangos bod yr hyfforddiant wedi'i dderbyn yn gadarnhaol gyda sylwadau'n cefnogi dull hyfforddi ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae effaith yr hyfforddiant hwn yn cefnogi newidiadau mewn ymarfer sy'n arwain at ganlyniadau gwell i bobl. Er enghraifft: *"Roeddwn i'n teimlo nad gofalwr yn unig mohonof y diwrnod hwnnw, oherwydd gallwn gymryd pwysedd gwaed fy nghleient, ei fonitro a'i gofnodi. Nid yw staff y GIG wedi arfer â hynny ond roedd yn gwneud i mi deimlo'n bwysig ac yn hyderus oherwydd fy mod wedi gwneud yr hyfforddiant ac roedd y cyfan wedi'i gymeradwyo, a fi oedd y person gorau yno a oedd yn adnabod fy nghleient a fi oedd yr un a allai gyfathrebu ag ef.'*
- Cafodd pedwar aelod newydd o staff y gwasanaethau cymdeithasol eu secondio i hyfforddiant Gradd Gwaith Cymdeithasol y Brifysgol Agored eleni. Eleni roedd gennym gyfanswm o 13 aelod o staff secondiad a hyfforddeiaeth yn gweithio tuag at gymhwyso'n weithwyr cymdeithasol.
- Cyflawnodd un gweithiwr cymdeithasol ei statws AMHP yn ystod y cyfnod hwn ar ôl cwblhau'r Rhaglen Ymarferwyr Iechyd Meddwl Cymeradwy yn llwyddiannus.
- Yn sgil buddsoddi mewn Hysbysu Gofal Cymunedol, roedd staff yn ystod cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn gallu cael at ddarnau allweddol o wybodaeth ac arweiniad a mynychu gweminarau ar-lein i hwyluso cyfleoedd dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Datblygwyd llwyfan dysgu digidol newydd rydym wedi'i alw'n SCIL (dysgu rhyngweithiol gofal cymdeithasol) i gyflenwi hyfforddiant ar-lein i'r sector cyfan gyda safle Moodle yn gartref i adnoddau hyfforddi. Hyd yma mae 79 o bobl wedi hyfforddi ar gyrsiau a dreialwyd drwy SCIL megis Gweinyddu Meddyginiaeth yn Ddiogel sydd â swyddogaeth asesu wedi'i hamseru newydd; Sgiliau Ysgrifennu Adroddiadau; Sgiliau Goruchwylio a Diogelu Plant; Prosesau a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant.
- Mae ystod eang o adnoddau eisoes ar gael ar lwyfan SCIL gan gynnwys adnoddau cwrs uniongyrchol a thaflenni, dolenni a fideos i wybodaeth ddefnyddiol/berthnasol arall a ddarperir gan hyfforddwyr ar bynciau fel ymwybyddiaeth iechyd meddwl a dolenni i'r cyrsiau yn y cynllun peilot. Mae SCIL ar gael drwy wneud cais am fanylion mewngofnodi.
- Gwnaethom recriwtio hyfforddai Kickstart ifanc i gefnogi staff gofal cymdeithasol i gael at gyrsiau hyfforddiant ar-lein digidol drwy TEAMS, ZOOM a SCIL.

Cewch isod syniad o'r math o gyfleoedd dysgu a datblygu eang a ddarparwyd gennym yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Mynychodd 30 o staff gofal gyrsiau Sgiliau Ysgrifennu Adroddiadau.

  *"Roedd hwn yn gwrs hyfforddi perthnasol iawn i mi. Roedd yr hyfforddwr yn wybodus iawn, roedd hi'n annog pob un ohonom i gymryd rhan ac yn gwneud i ni deimlo'n gyfforddus. Helpodd yr hyfforddiant i mi wella fy sgiliau cofnodi a nodi meysydd pellach i'w gwella. Rwyf wedi creu sleid cyflwyniad i hyfforddi staff eraill. Rwy'n gwybod pa wybodaeth berthnasol sydd ei hangen ac yn awr yn sicrhau bod fy adroddiadau'n glir ac yn ddarllenadwy ac yn glynu wrth ddeddfwriaeth."*
- Mynychodd 20 o weithwyr allweddol weithdy ar gyfer codi ymwybyddiaeth am y ddyletswydd Atal
- Mynychodd dros 30 o weithwyr cymdeithasol hyfforddiant Asesiadau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Mynychodd 25 o reolwyr gofal cymdeithasol gwrs Recriwtio Mwy Diogel
- Darparwyd hyfforddiant Gwydnwch Personol i Weithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso
- Cafodd cyrsiau Ffiniau Proffesiynol eu cyflwyno fesul dipyn ar draws yr holl grwpiau staff gwaith cymdeithasol gan gynnwys rheolwyr.
- Dechreuodd chwe rheolwr gwasanaethau cymdeithasol y Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm a'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol.
- Cofrestrodd chwe aelod ychwanegol o staff gofal cymdeithasol ar gymhwyster ymarferwyr y gwasanaethau cymdeithasol (SSP).
- Cyflwynodd ReLive gyfres o weminarau 'Profiad o Ddementia' ar-lein
- Cyflwynwyd cyrsiau Asesydd Cymeradwy i staff yn y Tîm Gofal Iechyd Integredig.
- Bu 11 o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn ymgymryd â Chydgrynhoi Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Ôl-raddedig.
- Cyflenwyd amrywiaeth o gyrsiau sgiliau gofal penodol mewn meddyginiaeth, cymorth cyntaf brys, diogelwch bwyd lefel 2, codi a chario gan gynnwys Hyfforddi'r Hyfforddwr codi a chario fel rhaglen dreigl barhaus.
- Cyflenwyd cyrsiau defnyddio iaith arwyddion i staff sy'n gweithio gyda phlant ag anableddau gan gynnwys staff mewn lleoliadau preswyl.
- Mynychwyd nifer o gyrsiau sgiliau goruchwylio rhithwir i staff a oedd yn darparu ystod eang o offer, technegau ac adnoddau goruchwylio.
- Mynychodd 18 o weithwyr cymdeithasol rheng flaen gyrsiau Cyflawni'r Dystiolaeth Orau: *'Roeddem am ddiolch i chi am ein derbyn i'r hyfforddiant Cyflawni'r Dystiolaeth Orau; roedd yn gwrs ardderchog. Yr hyfforddiant gorau a gawsom ers cymhwyso'n weithwyr cymdeithasol. Roedd y ddau Hyfforddwr yn hyfforddwyr rhagorol, er bod y pwnc yn anodd ar adegau roeddent yn cadw'r llif i fynd, roedd ganddynt gymaint o brofiad a gwybodaeth*

*roedd yn ysbrydoledig gwrando arnynt. Roeddem yn bryderus ynglŷn â'r chwarae rôl ond gwnaethant i ni deimlo'n hamddenol ac yn gyfforddus gyda'r broses ac roeddem yn bendant wedi elwa ar roi'r theori ar waith. Ni allwn orbwysleisio cymaint yr oeddem wedi'i ddysgu a chymaint yr oeddem wedi gwerthfawrogi'r hyfforddiant. Byddem yn ei argymell yn fawr i weithwyr cymdeithasol eraill, gan obeithio y gall CSP ddarparu'r hyfforddiant hwn eto yn y dyfodol agos.*

Erbyn diwedd 2021, cyfanswm nifer y cyrsiau hyfforddi a gwblhawyd ar draws y gweithlu ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb ac e-ddysgu oedd 5,573. Mynychwyd hyfforddiant rhithwir ar-lein ac wyneb yn wyneb gan 838 aelod o staff mewnol a 195 aelod o staff y sector preifat a gwirfoddol. Yn ogystal â hyn, cwblhawyd 4,540 o gyrsiau e-ddysgu sy'n dangos ffocws parhaus ar y ffordd hon o ddysgu drwy gydol y flwyddyn.

### 5.1.3 Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2021/22

Mae gallu recriwtio gweithwyr cymdeithasol, staff gofal a chymorth, gofalwyr maeth a chynorthwywyr personol yn brif flaenoriaeth i ni gan fod gennym heriau clir ar hyn o bryd i recriwtio a chadw'r staff sydd eu hangen arnom. Byddwn yn gweithredu ystod eang o weithgareddau recriwtio yn ystod 2021/22 yn unigol fel rhanbarth ac yn genedlaethol gyda'n partneriaid allweddol ledled Cymru. Bydd ein strategaeth i ddenu'r gweithlu sydd ei angen arnom yn cynnwys hysbysebion teledu, hysbysebion radio, datganiadau i'r wasg, ymgyrchoedd Facebook, ymgyrchoedd cyfryngau digidol, ymgyrchoedd postio, a phosteri i'w harddangos mewn lleoliadau cymunedol.

Ein blaenoriaethau eraill ar gyfer 2021/22 yw:

- Cyflwyno hyfforddiant Epilepsi achrededig ar draws y sector gofal
- Cyflwyno hyfforddiant Gofal Cathetr a Stoma ar draws y sector gofal
- Darparu ystod o hyfforddiant sgiliau iechyd meddwl i arfogi'r gweithlu i sicrhau arfer gorau
- Darparu parth tîm dynodedig ar ein llwyfan SCIL ar gyfer adnoddau gofalwyr maeth
- Nodi a darparu cyfleoedd dysgu a datblygu ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth ar y cyd â Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.
- Cydweithio â'r grŵp cynllunio gweithlu rhanbarthol sy'n cynnwys cydweithwyr Adnoddau Dynol i weithredu mentrau ar y cyd i ddenu a chadw'r bobl gywir i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.
- Darparu ffeiriau swyddi rhithwir gyda darparwyr gofal a cholegau lleol i ddenu pobl i rolau gofal yn y sector gofal cartref.

## 5.2 Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Fel mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol yn 2020/21. O fewn Gofal Cymdeithasol, gwnaethom barhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Dengys y tabl isod gost darparu gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Benfro dros y 5 mlynedd diwethaf. Rydym wedi parhau i weld galw a chostau cynyddol, oherwydd demograffeg poblogaeth sy'n heneiddio, mwy o gymhlethdod defnyddwyr gwasanaeth a chynnydd parhaus mewn costau gyda'r Cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol yn newidyn na ellir ei reoli sy'n arwain at bwysau sylweddol ar gostau.

| Cost Flynyddol Darparu Gofal Cymdeithasol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 Gwir. £'000 | 2016/17 Gwir. £'000 | 2017/18 Gwir. £'000 | 2018/19 Gwir. £'000 | 2019/20 Gwir. £'000 | 2020/21 Gwir. £'000 | 2021/22 A gyllidebwyd £'000 |
| Gwasanaethau Plant | 13,364 | 13,165 | 12,697 | 13,308 | 13,584 | 15,285 | 15,056 |
| Gofal i Oedolion | 44,241 | 45,700 | 47,894 | 51,697 | 53,989 | 57,757 | 56,750 |

Yn 2019/20 y targed oedd sicrhau £5.6m o arbedion effeithlonrwydd yn y Gwasanaethau i Oedolion a £0.6m yn y Gwasanaethau i Blant. Cyflawnwyd £2.37m o effeithlonrwydd gennym mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a £0.1m yn y Gwasanaethau Plant, sy'n golygu bod pwysau sylweddol wedi'u dwyn ymlaen i 20/21.

| Cyrraedd ein Targedau Effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | Targedau Effeithlonrwydd (gan gynnwys Llithriant) £ (M) | Arbedion Effeithlonrwydd Rhagamcanol £ (M) | Sut y Gwnaethom Gyflawni'r Arbedion Effeithlonrwydd |
| Gwasanaethau i oedolion | £3.16 | £1.28 | Drwy adolygu pecynnau gofal i sicrhau eu bod yn darparu yn unol â'r Cynllun Gofal ac yn cynnig gwerth am arian. Drwy sicrhau bod y ffrydiau ariannu priodol yn cael eu defnyddio yn unol ag anghenion y cleient. Drwy adolygu'r galw i sicrhau bod cleientiaid yn cael eu cyfeirio at y pecyn gofal mwyaf priodol. |

| Cyrraedd ein Targedau Effeithlonrwydd ar gyfer 2020/21 | | | |
|---|---|---|---|
| 2020/21 | Targedau Effeithlonrwydd (gan gynnwys Llithriant) £ (M) | Arbedion Effeithlonrwydd Rhagamcanol £ (M) | Sut y Gwnaethom Gyflawni'r Arbedion Effeithlonrwydd |
| Gwasanaethau Plant | £1.19 | £0 | Drwy adolygu Taliadau Uniongyrchol i sicrhau bod pecynnau'n cyflenwi yn unol â chynlluniau gofal, yn ogystal ag adolygu taliadau trydydd parti. |

Yn 2020/21 roedd yn ofynnol i ni gyflawni yn erbyn rhaglen lleihau costau o £4.35 miliwn ar draws yr adran gyfan tra byddwn yn parhau i weithio tuag at wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn ystod y pandemig. Dim ond £1.28 miliwn o arbedion effeithlonrwydd rhagamcanol yr oeddem yn gallu eu cyflawni.

Dangosir ein targed arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2021/22 yn y tabl isod.

| **2021/22** | **Targedau Effeithlonrwydd £ (M)** | Sut rydym yn Bwriadu Cyflawni'r Arbedion Effeithlonrwydd yn 2021/22 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau i oedolion | £1.04 | Drwy adolygu pecynnau gofal i sicrhau eu bod yn darparu yn unol â'r Cynllun Gofal ac yn cynnig gwerth am arian. Drwy sicrhau bod y ffrydiau ariannu priodol yn cael eu defnyddio yn unol ag anghenion y cleient. Drwy adolygu'r galw i sicrhau bod cleientiaid yn cael eu cyfeirio at y pecyn gofal mwyaf priodol. Drwy gasglu dyledion sydd heb eu talu. |
| Gwasanaethau Plant | £0.29 | Drwy adolygu Taliadau Uniongyrchol i sicrhau bod pecynnau'n cyflenwi yn unol â chynlluniau gofal, yn ogystal ag adolygu taliadau trydydd parti.<br>Gweithredu'r strategaeth lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. |

Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) dros y flwyddyn ddiwethaf i gynllunio a datblygu prosiectau sy'n gweithio ar draws y rhanbarth a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyhoedd ac yn darparu gwell gwasanaethau.

### Rhaglen Effeithlonrwydd y Gyllideb

Roeddem yn bwriadu parhau i hyrwyddo annibyniaeth a gwella canlyniadau pobl wrth sicrhau ein bod yn cyflawni ein harbedion effeithlonrwydd drwy barhau i ehangu a chyflawni'r prosiectau canlynol:

- Model Rhyddhau Amser i Ofalu.
- Hyrwyddo annibyniaeth drwy'r Prosiect Dilyniant.
- Canllawiau Gofal Iechyd Parhaus a phenderfyniadau ariannu yn y gwasanaethau i oedolion a phlant
- Capasiti ychwanegol i wella'r broses o gasglu dyledion.
- Cyd-gynhyrchu modelau newydd o wasanaethau dydd.
- Lleihau lleoliadau drud y tu allan i'r sir a galluogi pobl i aros yn eu cymuned neu'n agos ati drwy ddatblygu cyfleuster anghenion cymhleth rhanbarthol, cyfleuster asesu mamau a babanod a choleg preswyl.

## 5.3 Partneriaethau a Chydweithio

Rydym yn parhau i archwilio a hyrwyddo cyfleoedd i gydweithio'n lleol ac yn rhanbarthol er mwyn darparu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid a sicrhau arbedion.

Drwy weithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, rydym wedi gallu darparu gwasanaethau cymorth mwy integredig. Rydym yn parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth â BIPHDd ar amrywiaeth o fentrau ac i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu.

Rydym wedi parhau i ddatblygu partneriaeth ranbarthol gref gydag awdurdodau cyfagos a chwarae rhan fawr e.e. yn cynnal swyddi ar gyfer y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a chefnogi Powys o ran eu prosesau diogelu. Mae ein grŵp gweithredol diogelu lleol yn trafod pob mater sy'n ymwneud â diogelu yn Sir Benfro. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, yr Heddlu, y Coleg, Addysg, Gwasanaethau Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol.

Gwasanaeth comisiynu a rennir ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Ni sy'n gosod y cyflymder ar gyfer datblygu Model Comisiynu Integredig. Mae ein swydd Pennaeth Comisiynu yn eistedd ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Cynrychiolir Sir Benfro ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Ngorllewin Cymru. Mae'r Bwrdd hwnnw'n gyfrifol am:

- Wella canlyniadau i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'u gofalwyr;

- Hyrwyddo integreiddio gwasanaethau allweddol fel y rhai ar gyfer pobl hŷn, pobl ag anabledd dysgu, gofalwyr a phlant ag anghenion cymhleth;
- Sefydlu trefniadau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau penodol a threfniadau ariannu cyfun lle bo hynny'n briodol a;
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i gyflawni dyletswyddau statudol craidd megis darparu gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac eiriolaeth.

Mae'r Bwrdd yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr o'r GIG, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r sector annibynnol. Mae hyn yn hyrwyddo cydweithio ac yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu hintegreiddio yng Ngorllewin Cymru. Mae'r Bwrdd yn cynhyrchu cynllun blynyddol.

Hefyd, mae ganddo rôl yn cyflenwi yn erbyn cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sef Cymru Iachach (Mehefin 2018). Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynyddu arloesi lleol ar draws ei ranbarthau a chynnig modelau llwyddiannus ar gyfer mabwysiadu ehangach ledled Cymru.

## 5.4 Arwain, Llywodraethu ac Atebolrwydd Gwleidyddol a Chorfforaethol

Yn ystod y flwyddyn buom yn gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Rhaglen Weinyddu. Ar gyfer pob un o'r naw portffolio cabinet, mae'r ddogfen yn cynnwys cynllun ar gyfer pob ardal a'r gwaith sydd i'w wneud rhwng 2018 a 2022. Mae gwasanaethau cymdeithasol, sy'n dod o dan gylch gwaith y Cyng. Tessa Hodgson yn tynnu sylw at ffocws parhaus ar atal wrth nodi bod diogelu a recriwtio mwy o ofalwyr maeth yn brif flaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth.

Adolygwyd y Rhaglen Weinyddu yn ystod 2020/21 a byddwn yn disgwyl i raglen newydd gael ei lansio yn ystod 2021/22.

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaeth pob adran Gofal Cymdeithasol yn cyfarfod â'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Ofal Cymdeithasol yn fisol fel y gallant roi gwybod iddi am ddatblygiadau gwasanaeth.

Caiff cynnydd yn erbyn amcanion corfforaethol a'r blaenoriaethau a geir yn y Cynllun Corfforaethol ei fonitro gan y Cabinet, y Cyngor a'n Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Sefydlwyd pwyllgor Trosolwg a Chraffu newydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mehefin 2019. Mae hyn wedi gwella'r gwaith o graffu ar ofal cymdeithasol ac wedi annog aelodau i gymryd rhan fwy gweithredol yn y gwaith o fonitro perfformiad a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

# 6. Cael at Wybodaeth Bellach a Dogfennau Allweddol

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016.
Safle Llywodraeth Cymru: y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014-gwybodaeth-hanfodol.pdf

Codau ymarfer a chanllawiau statudol ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
https://llyw.cymru/cod-ymarfer-chanllawiau-o-dan-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014

Gwefan Cyngor Sir Penfro ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
https://www.sir-benfro.gov.uk/gwasanaethau-cymdeithasol-ac-iechyd

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro Asesiad Llesiant ar gyfer Sir Benfro
https://www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/asesiad-llesiant

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro Cynllun Lles Sir Benfro
https://www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/cynllun-lles

Cynllunio er mwyn Gwella Cyngor Sir Penfro a'r Cynllun Corfforaethol
https://www.sir-benfro.gov.uk/cynllunio-er-mwyn-gwella/cynllun-corfforaethol

Gofal Cymdeithasol Cymru
https://gofalcymdeithasol.cymru/

Deddfwriaeth yng Nghymru, hyb gwybodaeth a dysgu:
https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan

Gofal Cymdeithasol Cymru, Cod ymarfer:
https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau

Arolygiaeth Gofal Cymru. Adroddiadau Arolygu Rheoleiddwyr
https://arolygiaethgofal.cymru/

Asesiad o Anghenion y Boblogaeth
https://www.sirgar.llyw.cymru/media/3944/asesiad-poblogaeth-gorllewin-cymru-mawrth-2017.pdf

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)
http://www.pavs.org.uk/

Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
https://biphdd.gig.cymru/